



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG48420

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Papur Gwyn ar gynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

Chwefror 2024

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN ddigidol 978-1-83577-584-4

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y papur Gwyn *Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg*

Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg (2023)

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Cymraeg 2050

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

ebost: Cymraeg2050@llyw.cymru

Ffôn: 0300 0604400



[@Cymraeg](#)



[Facebook/cymraeg](#)

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Linc i'r dogfennau ymgynghori: [Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg](#)

Cynnwys

1. Cyflwyniad	5
Ynglŷn â'r ymgynghoriad	5
Crynodeb o'r ymatebion	5
2. Methodoleg	7
Dadansoddiad meintiol o'r cwestiynau caeedig	7
Dadansoddiad o'r sylwadau ategol	7
Adrodd ar ganfyddiadau	7
3. Crynodeb o'r themâu troswaol	8
Cefnogaeth i'r weledigaeth yn enwedig o blith sefydliadau	8
Heriau staffio a sicrhau gweithlu i gefnogi'r newidiadau	8
Rôl y gymuned ehangach	8
Angen mwy o wybodaeth, ymchwil a sgôpio	9
Lleiafrif yn anghytuno ag egwyddor y Bil	9
Cred mai rhieni ac ysgolion ddylai benderfynu ar lefel y ddarpariaeth Gymraeg	9
Nodyn o gynnwys ymgyrch Cymdeithas yr Iaith	9
4. Gwneud y targed miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged statudol a gwneud darpariaeth ynghylch deilliant ieithyddol i ddysgwyr drwy'r system addysg (Pennod 1)	10
Deilliant ieithyddol dysgwyr ar ddiwedd addysg statudol	12
5. Continwwm sgiliau Cymraeg gydol oes (Pennod 2)	17
6. Categori ysgolion yn ôl cyfrwng iaith (Pennod 3)	19
Gweinidogion Cymru i bennu categorïau ieithyddol ysgolion yn statudol	19
Gosod ysgolion mewn categori ieithyddol	23
Cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a symud tuag at gategori ieithyddol uwch	24
Monitro cynnydd	27
Gosod categori i ysgol newydd	29
7. Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg (Pennod 4)	31
Creu dolen gyswllt rhwng targedau cenedlaethol a thargedau lleol y Gymraeg mewn addysg	31
8. Cynllunio'r Gymraeg mewn addysg mewn awdurdodau lleol (Pennod 5)	35
Gweinidogion Cymru i osod targedau y Gymraeg mewn addysg ar gyfer pob awdurdod lleol	40
Gweinidogion Cymru yn comisiynu adolygiad o CGCA arfaethedig drafft	42
Dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu ar sail y CGCA arfaethedig	44
Adroddiadau ar weithredu CGCAu arfaethedig	47

Adolygiadau ac argymhellion gan Estyn	48
9. Dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol (Pennod 6)	52
Addysg cyfrwng Cymraeg	52
Darpariaeth trochi hwyr	55
10. Cefnogaeth i wireddu amcanion y Bil (Pennod 7)	58
11. Costau ac effeithiau'r cynigion	63
12. Camau Nesaf	69
Atodiad 2: Templed ymgyrch Cymdeithas yr Iaith	82
Atodiad 3: Ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc – Cardiau Post Cymdeithas yr Iaith	86

1. Cyflwyniad

Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn: Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r dadansoddiad, ac yn nodi'r negeseuon a'r themâu allweddol a gyflwynir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Ynglŷn â'r ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y cynigion yn y Papur Gwyn ar gyfer y Bil Addysg Gymraeg a gafodd eu cyflwyno yng nghyd-destun yr her sylweddol y mae strategaeth Cymraeg 2050, a'r targed o filiwn o siaradwyr, yn ei osod.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 27 Mawrth 2023 a daeth i ben ar 16 Mehefin 2023. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael yma:

[Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg](#)

Crynodeb o'r ymatebion

Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o **538 o ymatebion** i'r ymgynghoriad hwn. Roedd **366 o'r ymatebion yn rhai unigryw**.

Cyflwynwyd 304 drwy holiadur ar-lein a chyflwynwyd 62 drwy ffurflen wedi ei lawrlwytho a'i ddychwelyd ar e-bost ar ffurf dogfen. Nid oedd rhai o'r ymatebion hyn yn dilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad yn uniongyrchol; adolygwyd yr ymatebion ansoddol nad oedd yn dilyn strwythur y cwestiynau, a dadansoddwyd yr adrannau a oedd yn cyd-fynd â'r cwestiynau ochr yn ochr â'r atebion eraill i'r cwestiwn hwnnw.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru ymatebion hefyd a oedd yn dilyn templed gan ymgyrch Cymdeithas yr Iaith a cyflwynwyd 172 o ymatebion oedd union yr un fath. Nid oedd yr ymatebion hyn wedi ateb y cwestiynau caeëdig (h.y. cytuno neu anghytuno gyda chynnig) felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiynau caeëdig yn yr adroddiad hwn. Mae'r pwyntiau a godwyd yn yr ymatebion wedi'u cynnwys o dan y cwestiynau perthnasol.

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr o Gymru (lle bo'r wybodaeth honno ar gael). Ni chasglwyd gwybodaeth bersonol drwy'r holiadur ar-lein, felly nid oes data ar gael i fedru dosbarthu'r ymatebwyr hynny fel unigolion neu gynrychiolwyr sefydliadau, na chwaith manylion am eu lleoliad. Ar gyfer ymatebwyr a gyflwynodd eu hadborth trwy ffurflen, casglwyd rhagor o wybodaeth gefndirol, a nodwyd pa ymatebion oedd wedi'u cyflwyno ar ran sefydliadau, lle roedd yr wybodaeth honno ar gael.

Derbyniwyd ymatebion trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn. Mae nifer yr ymatebwyr a atebodd bob cwestiwn wedi'i gofnodi yn yr adrannau sy'n dilyn, yn cynnwys y nifer a atebodd y cwestiynau caeëdig a'r cwestiynau testun rhydd.

Ymhlith yr ymatebion a dderbyniwyd, roedd nifer o ymatebion yn datgan anghytundeb gyda phob cwestiwn o fewn yr ymgynghoriad. Yn achos nifer o'r ymatebion hyn, nid oedd sylwadau ategol i esbonio rhesymau dros anghytuno gyda'r cwestiynau. Nid oedd unrhyw ymatebwyr wedi cytuno â'r holl gwestiynau a heb rhoi sylwadau ategol. Mewn rhai

achosion, ceir sylwadau cryno sydd yn cael eu hailadrodd ar draws y cwestiynau. Roedd y sylwadau hyn yn tueddi nodi gwrthwynebiad i unrhyw gefnogaeth i addysg Gymraeg neu'n nodi barn bod y cynigion yn wastraff arian. Wrth reswm, mae'r ymatebion i'r cwestiynau caeëdig wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad o'r prif themâu yn yr adroddiad yn canolbwyntio'n unig ar yr ymatebion ansoddol hynny lle ceir sylwadau sydd yn berthnasol i sylwedd y cynigion a'r cwestiynau penodol a ofynnwyd, yn hytrach nag ymatebion sy'n datgan barn gyffredinol.

Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Cyhoeddwyd yr ymatebion a ddaeth i law ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Paratowyd yr adroddiad hwn gan gwmni ymchwil Arad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi'r ymatebion.

2. Methodoleg

Dadansoddiad meintiol o'r cwestiynau caeedig

Y cam cyntaf oedd cynnal adolygiad o'r 24 cwestiwn caeedig a ofynnwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Ar gyfer pob cwestiwn, cyfrifwyd cyfansymiau syml i bennu amllder pob ateb. Mae canlyniadau'r dadansoddiad meintiol wedi cael eu hadrodd ar gyfer yr ymatebion i gyd a hefyd ar gyfer ymatebion sydd wedi eu hadnabod fel rhai gan sefydliadau.

Dadansoddiad o'r sylwadau ategol

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r data ansoddol (y sylwadau a gyflwynwyd gan ymatebwyr i'r cwestiynau penagored). Yn y dadansoddiad thematig, cafodd y safbwyntiau, y sylwadau a'r materion a godwyd o dan bob cwestiwn gan yr ymatebwyr eu categoreiddio'n themâu cyffredinol. Nod y dadansoddiad oedd ceisio nodi'r themâu a oedd yn codi amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Pan oedd ymatebwyr wedi cynnig sylwadau cyffredinol yn hytrach nag ymateb o dan gwestiynau penodol, yna mae'r pwyntiau hynny wedi'u cynnwys o dan y cwestiwn mwyaf perthnasol yn yr adran ddadansoddi isod.

Roedd y broses o gynnal y dadansoddiad hwn fel a ganlyn:

- a. Cafodd yr holl ymatebion a gafwyd ar ffurf arolwg a sampl o 10 o'r rhai ar ffurf ffurflen neu lythyr eu hadolygu'n fyr i gael trosolwg o'r prif bwyntiau.
- b. Nodwyd y themâu a oedd yn codi amlaf. Gwnaeth yr ymchwilyr gymharu'r themâu a nodwyd ganddynt â chanfyddiadau ei gilydd cyn cyrraedd consensws ar set o godau i'w defnyddio ar gyfer yr ymatebion sy'n weddill.
- c. Yna adolygodd yr ymchwilyr yr holl ymatebion i bob cwestiwn ac ychwanegu themâu fel bo angen.
- d. Sicrhodd y broses hon bod yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hadolygu yn ystod y dadansoddiad, a bod y pwyntiau a godwyd amlaf yn cael sylw yn yr adroddiad hwn.

Adrodd ar ganfyddiadau

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r themâu sy'n codi amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Drwy'r adroddiad cyfan, mae'r themâu a'r pwyntiau a gyflwynir yn deillio o sylwadau a wnaed gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac nid ydynt yn cynrychioli safbwyntiau awduron yr adroddiad na Llywodraeth Cymru. Cyflwynir detholiad o ddyfyniadau hwnt ac yma drwy'r adroddiad i ddangos y pwyntiau a'r themâu a godwyd.

3. Crynodeb o'r themâu troswaol

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu cyffredinol a gododd yn aml yn ystod yr ymgynghoriad yn ei gyfanrwydd. Er bod cwestiynau'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar wahanol elfennau o'r Papur Gwyn, canfu'r dadansoddiad themâu cyffredinol neu themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro ar draws sawl cwestiwn.

Cefnogaeth i'r weledigaeth yn enwedig o blith sefydliadau

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gefnogol i'r cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oedd hwn yn fwyafrif llethol. Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynigion. Roedd eraill yn cytuno gyda rhai o'r cynigion ond nid y cwbl. Fodd bynnag, pan ystyrir yr ymatebion gan ymatebwyr o oedd yn cynrychioli sefydliadau (gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau addysg, cyrff cyhoeddus ac ati) cafwyd cefnogaeth glir i fwyafrif y cynigion.

Heriau staffio a sicrhau gweithlu i gefnogi'r newidiadau

Codwyd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol addysgwyr mewn nifer o'r ymatebion a mynegwyd pryderon am brinder staff addysgu sydd â sgiliau Cymraeg hyfedr. Nododd ymatebwyr y gallai prinder personél rwystro gweithredu'r cynigion ar gyfer y Bil, ac yn y pen draw rhwystro cynnydd tuag at y nod o filiwn o siaradwr. I nifer o ymatebwyr roedd datblygu'r gweithlu addysg yn flaenoriaeth.

There is an urgent need to respond to the huge national challenge and the crisis throughout Wales of recruiting a workforce who can work through the medium of Welsh and who feel confident speaking and using the language at all levels of the education sector – Teachers, learning assistants, ALN, school leaders, childcare, language and psychology experts for young people. (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

Yn gysylltiedig â hyn, cyfeiriwyd yn gyson at bryderon am effaith gweithredu'r cynigion ar bwysau gwaith ar lefel ysgol ac ar ymarferwyr.

Rôl y gymuned ehangach

Thema amlwg yn adborth nifer o ymatebwyr, yn enwedig gan sefydliadau, oedd galwad am fwy o bwyslais ar hyrwyddo'r Gymraeg y tu hwnt i fyd addysg ac i'r gymuned ehangach. Y farn ymhlith yr ymatebwyr hyn oedd bod pwyslais ychwanegol o'r fath nid yn unig yn hanfodol i gryfhau'r newidiadau arfaethedig o ganlyniad i'r Bil Addysg Gymraeg ond hefyd i adeiladu ar y mentrau a'r ymdrechion sydd eisoes ar y gweill. Thema amlwg gysylltiedig ar draws nifer o'r atebion i nifer o gwestiynau'r ymgynghoriad oedd yr angen i godi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth rhieni o'r hyn a olygir gan addysg Gymraeg. Nododd ymatebwyr hefyd y bydd angen i newidiadau gydnabod natur amrywiol Cymru ac ymateb i ffactorau lleol.

'Y mae angen [i'r Gymraeg] dorri y tu hwnt i ffiniau bod yn iaith addysg yn unig ar gyfer y mwyafrif, a thro'i'n iaith y gweithle ac iaith bywyd bob dydd.'
(Sefydliad – am aros yn ddienw)

Angen mwy o wybodaeth, ymchwil a sgôpio

Roedd nifer o'r ymatebion, yn enwedig o blith y sefydliadau, yn awyddus i Lywodraeth Cymru ystyried yr ymgynghoriad hwn fel man cychwyn yn unig, ac ar draws sawl un o'r cwestiynau roeddynt yn awyddus i weld mwy o ymchwil a mwy o ymgynghori ar y manylion. Roeddynt o'r farn y byddai'r Papur Gwyn yn elwa o ragor o wybodaeth am y sylfaen dystiolaeth sy'n sail i nifer o'r cynigion ac yn sail i'r adran gostau. Soniodd nifer o'r sefydliadau hyn eu bod nhw yn awyddus i fod yn rhan o helpu a chefnogi Llywodraeth Cymru gyda'r camau nesaf.

Lleiafrif yn anghytuno ag egwyddor y Bil

Roedd carfan o ymatebwyr yn anghytuno mewn egwyddor gyda'r Bil a'r cynigion yn yr ymgynghoriad. Nododd nifer o'r ymatebwyr hyn fod cynigion yn 'wastraff arian'. Aeth rhai ymatebwyr ymlaen i nodi bod llawer o heriau yn wynebu Cymru ac wedyn rhestru meysydd eraill oedd yn eu tyb hwy yn flaenoriaethau y dylai fod yn derbyn sylw a chyllid.


Cred mai rhieni ac ysgolion ddylai benderfynu ar lefel y ddarpariaeth Gymraeg

Nododd rhai ymatebwyr – yn benodol rhai o'r ymatebwyr nad oedd yn ymateb ar ran sefydliad - mai rhieni, ysgolion unigol a llywodraethwyr ysgol ddylai fod yr unig rai ddylai wneud penderfyniadau ynghylch darpariaeth Gymraeg. Mynegwyd y farn hon gan ymatebwyr ar draws y rhan fwyaf o'r cwestiynau a ofynnwyd.

Nodyn o gynnwys ymgyrch Cymdeithas yr Iaith

Mae'r 172 o ymatebion ddaeth i law fel rhan o ymgyrch Cymdeithas yr Iaith yn pwysleisio bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, waeth beth fo'u cefndir, ac yn galw am bolisiâu addysgol i adlewyrchu hyn drwy ddarparu addysg Gymraeg i bob plentyn. Mae'n trafod effaith negyddol y system addysg bresennol ar sgiliau Gymraeg, yn enwedig ymhlith cymunedau difreintiedig. Mae'r ymatebion yn cyfeirio at fersiwn terfynol ddeddf addysg Cymdeithas yr Iaith a gyhoeddwyd ym Mai 2023. Nod y ddeddf yw trawsffurfio'r gyfundrefn addysg a gosod nod statudol o sicrhau mai'r Gymraeg fydd iaith addysg yng Nghymru erbyn 2050. Mae'r ymatebwyr yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r ddeddfwriaeth hon yn ei chyfanrwydd fel model ar gyfer ei Bil Addysg Gymraeg ei hun. Mae testun templed Cymdeithas yr Iaith i'w weld yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

4. Gwneud y targed miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged statudol a gwneud darpariaeth ynghylch deilliant ieithyddol i ddysgwyr drwy'r system addysg (Pennod 1)



Cyflwynodd 174 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn y byddai gwneud y targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn statudol yn atgyfnerthu statws y targed a statws y Gymraeg, trwy sefydlu rôl arweinyddiaeth ganolog.

- Roedd nifer hefyd o'r farn y byddai sicrhau arweinyddiaeth a statws yn ganolog yn hwyluso gweithredu effeithlon i gefnogi cynnydd tuag at y targed ar draws gwahanol sectorau.
- Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod yr holl randdeiliaid ar draws y gyfundrefn addysg yn ymrwmo tuag at gyflawni'r targed.

'Mae'r system addysg yn gwbl ganolog i amcanion strategaeth Cymraeg 2050, a byddai gosod targed statudol o'r fath yn gosod cyfeiriad clir i'r sector addysg yn ei gyfanrwydd.' (Comisiynydd y Gymraeg)

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai ennyn cefnogaeth y cyhoedd i'r targed yn cael ei gyflawni'n fwy effeithiol trwy anogaeth yn hytrach na gorfodaeth. Roedd yr ymatebwyr hyn yn ofni y gallai gosod rhwymedigaeth statudol ddiethrio rhai rhannau o'r boblogaeth yn anfwriadol.
- Nododd rhai hefyd bod y prosesau presennol sydd ar waith ar gyfer ehangu darpariaeth Gymraeg eisoes yn ddigonol. Roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau bod y mecanweithiau hyn yn ddigonol i annog twf ieithyddol ac y byddai gwneud y targed yn statudol yn cyflwyno cymhlethdodau biwrocraidd diangen.
- Roedd eraill yn poeni y byddai gosod y targed o fewn y Bil yn gorfodi yn hytrach nag annog disgyblion ysgol i ddysgu'r iaith (er noder bod Deddf Cwricwlwm ac Asesu Cymru eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgu'r Gymraeg).

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd rhai ymatebwyr yn ansicr beth oedd yn cael ei fesur wrth gyfeirio at 'siaradwyr Cymraeg' - y nifer sy'n deall Cymraeg neu y nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg?
- Nododd ymatebwyr eraill ei bod yn amlwg bod gan addysg rôl allweddol i'w chwarae wrth gyrraedd y miliwn o siaradwyr ond nodwyd hefyd na all y sector addysg wneud hyn ar ei ben ei hun - mae angen i bob sector gymryd perchnogaeth a chynnig cymorth er mwyn symud yn llwyddiannus ar hyd y continwwm iaith.
- Nododd rhai ymatebwyr bod angen ystyried sgiliau iaith y gweithlu addysg wrth ystyried cyrraedd y targed statudol hwn - mae hon yn thema sy'n ymddangos yn gyson mewn ymatebion i nifer o'r cwestiynau.
- Nododd eraill bod cyflawni'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr yn ddibynnol ar allu Llywodraeth Cymru i ddarparu adnoddau priodol i gyflawni'r targed.
- Fe gododd rhai ymatebwyr y cwestiwn 'beth fyddai'r canlyniadau i ysgolion, awdurdodau lleol a phartïon eraill am fethu â chyrraedd y targed a osodwyd mewn statud?' Holodd ymatebwyr sut y byddai'r cynnydd yn nifer y siaradwyr yn cael ei fesur yn barhaus: Trwy'r cyfrifiad bob deng mlynedd? Arolwg blynyddol o'r boblogaeth?

Deilliant ieithyddol dysgwyr ar ddiwedd addysg statudol

Cwestiwn ymgynghori 2: Ydych chi'n credu y dylai fod rôl bendant gan awdurdodau lleol i weithio tuag at y deilliant sy'n gyfystyr â lefel B2 erbyn 2050? Ac os felly, beth ddylai'r rôl honno fod?		
Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
182 (52%)	147 (42%)	18 (5%)

Nifer a atebodd y cwestiwn caeëdig = 347

Roedd 19 wedi gadael y cwestiwn caeëdig yn wag.

Barn sefydliadau: Roedd 40 o ymatebion y gellid eu hadnabod fel rhai a gyflwynwyd ar ran sefydliadau. Ymysg yr ymatebion hyn, roedd y gyfran o ymatebwyr a gytunodd yn llawer uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nododd 33 (83%) eu bod nhw'n cytuno; roedd 2 (5%) yn anghytuno a nododd 5 (13%) nad oeddynt yn cytuno nac anghytuno.¹

Holl ymatebion

n=347

Ymatebion gan sefydliadau

n=40

■ Cytuno ■ Anghytuno ■ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Cyflwynodd 170 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod y lefel B2 yn isafswm priodol ar gyfer ysgolion Saesneg neu ddwyieithog - er bod rhai hefyd yn cwestiynu a oedd lefel B2 yn ddigonol i'r ysgolion hyn. Fodd bynnag, mynegodd sawl ymatebydd, a oedd yn cytuno â'r cwestiwn hwn, bryder nad oedd gosod lefel B2 fel targed o fewn y Bil yn ddigonol i annog ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion eraill sydd eisoes yn cyrraedd canlyniadau iaith i'r lefel hon, i wella safon y canlyniadau ieithyddol y maent yn dyheu amdanynt.

¹ Nid yw'r canrannau yn y blychau crynhoi drwy'r adroddiad yn cyfateb i 100% bob tro oherwydd talgrynnu.

'Tra'n cefnogi hyn, credwn ar yr un pryd bod angen gosodiad clir yn y ddeddfwriaeth y dylid disgwyl deilliannau uwch gan ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.' (Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

'A yw gosod B2 y CEFR yn ddigon uchel? Mae angen cydnabod bod disgyblion ein hysgolion Cymraeg yn cyrraedd C1/2. Dylid nodi'r uchelgais hyn o fewn y ddeddf yn ogystal â B2 er mwyn dangos yr uchelgais i gael siaradwyr hyfedr.' (Mentrau Iaith Cymru)

Prif bwyntiau a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylai fod rôl bendant gan awdurdodau lleol i weithio tuag at y deilliant sy'n gyfystyr â lefel B2

- Nodwyd bod eisoes gan awdurdodau lleol y wybodaeth berthnasol ynglŷn a'r gweithlu a'r nifer o ddisgyblion sydd yn derbyn addysg Cymraeg, Saesneg neu ddwyieithog, felly mae yna rôl naturiol gan awdurdodau lleol i weithio tuag at y deilliant hwn.
- Nododd rhai ymatebwyr y byddai gosod rôl bendant ar awdurdodau lleol yn arwain at fwy o gysondeb o ran darpariaeth ac ymrwymiad tuag at hyrwyddo'r Gymraeg.
- Nodwyd gan mai awdurdodau lleol sydd eisoes yn llunio'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) byddai'n synhwyrol i bennu rôl o'r fath iddynt.
- Nodwyd hefyd yr angen i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydweithio'n agos gyda chonsortia ac ysgolion lleol yn ogystal ag awdurdodau lleol eraill.
- Nododd rhai ymatebwyr bod angen i bob rhanddeiliad, gan gynnwys ysgolion a chlystyrau, gefnogi awdurdodau lleol i ymgymryd â dyletswyddau monitro cynnydd tuag at B2. Roedd rhai yn cwestiynu sut y byddai cynnydd tuag at y deilliant hwn yn cael ei fesur - e.e. a fyddai angen asesiadau ychwanegol o fewn ysgolion i asesu sgiliau darllen, gwranddo a siarad Cymraeg disgyblion?

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nodwyd bod gweithio tuag at y deilliant sy'n gyfystyr â lefel B2 yn rhy uchelgeisiol, yn enwedig i ysgolion sydd ar hyn o bryd yn ysgolion Saesneg neu ddwyieithog. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn o'r farn y byddai deilliant sy'n gyfystyr â B1 neu A2 yn fwy priodol.

'This advanced level of Welsh at school leaver age is very ambitious and we have significant concerns over whether this is an achievable target.'
(Gwasanaeth Addysg Cyngor Dinas Casnewydd)

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn taw rhieni, ac nid awdurdodau lleol dylai penderfynu pa ddeilliannau ieithyddol y dylid eu gosod ar gyfer ysgolion unigol.
- Nodwyd hefyd bod awdurdodau lleol eisoes o dan bwysau adnoddau gyda blaenoriaethau pwysicach i ganolbwyntio arnynt; ac felly o'r farn bod gosod y cyfrifoldeb ychwanegol hyn arnynt yn gam rhy bell.


'LAs don't need the added work and stress...there is also a shortage of staff to support this.' (Dienw – ymateb i'r holiadur ar lein)

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd rhai ymatebwyr, a oedd yn cytuno â'r bwriad o osod deilliant B2 fel isafswm, bod angen sicrhau bod yna ddealltwriaeth ar draws bob awdurdod ynglŷn a beth yw'r deilliannau penodol sy'n berthnasol i'r safon hwn. Awgrymodd un awdurdod lleol bod angen gweithgor cenedlaethol i greu disgrifiad clir o lefel B2 ar gyfer y Gymraeg cyn ei gyflwyno fel targed neu isafswm.
- Awgrymodd ymatebydd arall byddai cynllun peilot cychwynnol gydag awdurdodau lleol/consortia penodol yn ddefnyddiol i adnabod a rhannu gwersi ynglŷn a strategaethau lleol sydd wedi llwyddo i weithio at y deilliant hwn.
- Nodwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cychwyn ar y daith tuag at y canlyniad hwn cyn gynted â phosibl, ac felly mae'n bwysig sicrhau bod darpariaeth Gymraeg digonol ar gael yn y sector cyn-ysgol.
- Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y dylai fod rôl bendant gan awdurdodau lleol i weithio tuag at y deilliant hwn, ond nodwyd hefyd bod angen hyfforddiant ac adnoddau digonol i'w galluogi i wneud hyn. Roedd rhai ymatebwyr yn amau os byddai adnoddau digonol ar gael i alluogi awdurdodau lleol i gyflawni'r rôl.
- Nododd rhai sefydliadau bod angen atebolrwydd digonol i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn gweithio'n wrpasol tuag at y deilliant. Ym marn yr ymatebwyr hyn, mae rhai awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn cynnwys bwriadau i gefnogi mwy o ddarpariaeth Gymraeg yn eu CSCA lleol ond nid ydynt yn gweithredu'r cynlluniau hyn yn ymarferol.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod dyletswydd ar awdurdodau lleol, yn ogystal â chymryd y rôl o weithio tuag at y deilliant hwn, i annog mwy o ddefnydd o'r iaith drwy sicrhau eu bod nhw fel sefydliad yn defnyddio mwy o Gymraeg yn fewnol ar draws pob adran ond yn enwedig o fewn yr adran addysg.

'We also have a role in ensuring that those Welsh language skills are promoted and valued by us as an employer.' (Cyngor Sir Powys)

Cwestiwn ymgynghori 3: Ydych chi'n credu y dylai fod rôl bendant gan Weinidogion Cymru i weithio tuag at y deilliant sy'n gyfystyr â lefel B2 erbyn 2050? Ac os felly, beth ddylai'r rôl honno fod?		
Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
184 (53%)	146 (42%)	16 (5%)
<p>Nifer a atebodd y cwestiwn caeëdig = 346</p> <p>Roedd 20 wedi gadael y cwestiwn caeëdig yn wag neu heb ateb yn benodol.</p> <p>Barn sefydliadau: Roedd 39 o ymatebion y gellid eu hadnabod fel rhai a gyflwynwyd ar ran sefydliadau. Ymysg yr ymatebion hyn, roedd y gyfran o ymatebwyr a gytunodd yn llawer uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nododd 34 (87%) eu bod yn cytuno; roedd 2 (5%) yn anghytuno a nododd 3 (8%) nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno.</p>		



Cyflwynodd 145 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Cytunodd y rhan fwyaf o ymatebwyr bod angen i Weinidogion Cymru fabwysiadu rôl bendant wrth weithio tuag at y deilliant hwn er mwyn sicrhau bod gan yr holl randdeiliaid perthnasol ddealltwriaeth o'r hyn a ddisgwylir wrth gefnogi cyrhaeddiad lefel B2. Roedd nifer o'r ymatebwyr hyn hefyd o'r farn bod gan Weinidogion rôl i sicrhau cynnydd a chydraddoldeb ledled Cymru.

[The role of Welsh Ministers is important in...] 'Ensuring that all relevant stakeholders have clarity and consistency of understanding about what is expected and interpreted as level B2.' (Cyngor Bro Morgannwg)

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru, fel rhan o'r rôl hyn, ddangos arweinyddiaeth ganolog drwy osod targedau, monitro a chreu atebolrwydd. Roeddent hefyd o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru weithio gydag awdurdodau lleol – 'bod yn ffrind beirniadol' – a sicrhau bod yna adnoddau digonol ar gael a rhaglen genedlaethol o hyfforddiant er mwyn sicrhau bod yr un safonau cyson ar waith ym mhob rhan o'r wlad.

'[Mae rôl Gweinidogion Cymru yn] hollol bwysig gan sicrhau bod y nod yn uchelgeisiol, heriol a realistig, gyda thargedau penodol yn cael eu gosod i Gymru'n gyffredinol ac i siroedd unigol.' (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC))

- Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon na fyddai Gweinidog etholedig y dyfodol o reidrwydd yn dyheu am dyfu'r iaith a byddai hyn yn arafu nodau'r Bil. Awgrymodd un ymatebydd sefydlu corff hyd braich - tebyg i Gomisiynydd y Gymraeg a allai arwain cynllunio iaith, a chefnogi cynnydd mewn 'modd amhleidiol.'

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn mai awdurdodau lleol ddylai gael y cyfrifoldeb o weithredu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg heb ddylanwad

Gweinidogion Cymru. Dylai Gweinidogion Cymru gefnogi awdurdodau lleol i wneud hyn ond ni ddylent gael rôl bendant yn y gwaith a symud tuag at ddeilliant B2 ar draws Cymru.

- Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai Gweinidogion Cymru ganolbwyntio ar faterion eraill / mwy pwysig fel iechyd a'r economi.

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno bod yna rôl bendant gan Weinidogion Cymru i weithio tuag at y deilliant sy'n gyfystyr â lefel B2 ond bod angen i'r Gweinidogion hyn i weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol i ddeall yr heriau o ran cyrraedd y targed hwn.
- Roedd ymatebwyr eraill o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru hefyd gefnogi ymgyrch genedlaethol i hyrwyddo'r llwybr i B2 a'r manteision o gyrraedd deilliant sy'n gyfystyr â lefel B2.

5. Continwwm sgiliau Cymraeg gydol oes (Pennod 2)


Cwestiwn ymgynghori 4: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig y dylai dyletswydd fod ar Weinidogion Cymru i ddatgan y continwwm sgiliau Cymraeg?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
206 (59%)	112 (32%)	31 (9%)

Nifer a atebodd y cwestiwn caeëdig = 349

Roedd 17 wedi gadael y cwestiwn caeëdig yn wag neu heb ateb yn benodol.

Barn sefydliadau: Roedd 42 o ymatebion y gellid eu hadnabod fel rhai a gyflwynwyd ar ran sefydliadau. Ymysg yr ymatebion hyn, roedd y gyfran o ymatebwyr a gytunodd yn llawer uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nododd 39 (93%) eu bod yn cytuno; nid oedd yr un o'r ymatebwyr hyn yn anghytuno a nododd 3 (7%) nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno.



Cyflwynodd 124 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Byddai creu continwwm o'r fath yn rhoi dealltwriaeth gyffredin a gwell eglurder i rieni a disgyblion ynghylch deilliannau ieithyddol tebygol dysgwyr ym mhob ysgol. Yn ogystal â hyn, byddai datgan continwwm sgiliau Cymraeg gan Weinidogion Cymru yn rhoi statws amlwg i'r continwwm.
- Byddai continwwm yn galluogi ysgolion a sefydliadau eraill i fonitro dilyniant sgiliau Cymraeg. Byddai hyn yn galluogi darparwyr i adnabod hyfedredd unigolyn ac yn creu cyfle i annog dysgwr i ddangos cynnydd ar hyd continwwm.
- Byddai continwwm sgiliau Cymraeg yn cynnig fframwaith cyffredin i gefnogi cyflogwyr, yn ystod prosesau recriwtio, i gyfathrebu ac asesu'r sgiliau Cymraeg gofynnol o fewn rolau swyddi unigol.

'Gall continwmm o'r fath fod yn fframwaith cynllunio a mesur i'r sector addysg o'r bôn i'r brig, ac ymhellach na hynny yn y byd gwaith a chyflogaeth.' (Comisiynydd y Gymraeg)


Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd rhai ymatebwyr, a oedd yn cytuno y dylid gwneud darpariaeth yn y Bil ynghylch continwmm sgiliau Cymraeg, yr angen i sicrhau bod rhanddeiliaid a chymunedau yn ymwybodol o, ac yn deall, y continwmm. Yn hynny o beth, awgrymwyd bod angen diffinio'r continwmm yn glir ac yn ofalus a sicrhau bod ei bwrpas a'i fanteision yn glir i bawb; awgrymwyd y byddai hyn hefyd yn codi hyder pobl i ddeall lle mae nhw fel unigolion ar y continwmm.
- Nododd rhai ymatebwyr fod gan awdurdodau lleol gontinwmm ieithyddol eisoes ar waith, ac roeddent felly yn cwestiynu'r rhesymeg o ddatblygu un newydd. Nododd ymatebwyr eraill y byddai continwmm ledled Cymru yn ddefnyddiol, er mwyn sicrhau cysondeb yn y continwmm ieithyddol a ddefnyddir ar hyn o bryd ar draws awdurdodau lleol a chonsortia; ond ar yr un pryd ystyriodd rhai y gellid cyflawni hyn heb ei wneud yn ddyletswydd gyfreithiol.
- Nodwyd fod angen cael targedau, meincnodau ac adolygiadau cynnydd yn gysylltiedig â gwahanol bwyntiau ar y continwmm. Nodwyd fod angen eglurder am berthynas y continwmm gyda'r Cwricwlwm i Gymru a nodwyd hefyd fod angen i'r continwmm cael ei gefnogi gan raglen o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon a chynorthwyr addysgu. Yn ogystal â hyn, nodwyd bod angen deunyddiau ar gyfer ysgolion sydd wedi'u teilwra i anghenion dysgwyr mewn addysg, ac nid yn rai sydd â diben deul, hynny yw, yn addas ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion yn ogystal â disgyblion ysgolion.
- Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ganlyniadau anfwriadol posibl wrth fabwysiadu continwmm

Rhaid sicrhau nad yw'r broses o ddiffinio 'siaradwr Cymraeg', a gosod y diffiniad hwn fel y disgwyliad isaf i ysgolion yng Nghymru, yn anfwriadol yn arwain at gynnydd mewn niferoedd siaradwyr goddefol yn unig. Ni ddylai, ac nid yw gweledigaeth Cymraeg 2050 yn un o filiwn o siaradwyr B2. Un o brif gryfderau strategaeth iaith y Llywodraeth yw ei fod yn annog dealltwriaeth mor gynhwysol â phosibl o 'siaradwr Cymraeg'. (Comisiynydd y Gymraeg)

6. Categoriadau ysgolion yn ôl cyfrwng iaith (Pennod 3)

Gweinidogion Cymru i bennu categorïau ieithyddol ysgolion yn statudol



Cyflwynodd 140 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd ymatebwyr y byddai creu cyfundrefn statudol ar gyfer categorïadau ysgolion yn ôl cyfrwng iaith yn caniatáu diffinio cywir, monitro cyson, ac yn rhoi sail ar gyfer cynnydd yn unol â thargedau Cymraeg 2050.

'Creating a categorisation system for maintained schools according to language category will clarify schools' curricular offer, making it easier for parents and carers to make informed choices.' (Cyngor Sir Powys)

- Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno gyda'r cwestiwn ond hefyd o'r farn bod angen diffinio'r categorïau hynny'n glir a'u datblygu gyda golwg benodol ar sicrhau bod cyfle ac anogaeth i ysgolion symud ymlaen ar hyd continwmm o categorïau.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru geisio newid neu addasu'r categorïau presennol cyn eu gwneud yn statudol. Nododd ymatebwyr eraill yr angen i sefydlu system fonitro addas i ddod â'r ddarpariaeth a gynhelir gan ysgolion unigol yn unol â'r categori y maent ynddo.


Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai cyflwyno gofyniad statudol i osod pob ysgol o fewn categori ieithyddol, greu system gystadleuol ar ffurf cynghrair a fydd yn cynyddu pwysau gwaith athrawon ac yn arwain at anfodlonrwydd o fewn y gweithle.
- Mae ymatebion o'r fath a nodwyd uchod yn awgrymu fod yna peth dryswch ymhlith rhai ymatebwyr ynglŷn ag oblygiadau ymarferol creu cyfundrefn statudol ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith.
- Roedd nifer o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn, yn anghytuno oherwydd nad oeddent yn gefnogol i'r syniad o categoreiddio ysgolion yn y lle cyntaf.

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd rhai ymatebwyr mai dim ond ers mis Medi 2022 y mae'r canllawiau diweddaraf ar categorïau anstatudol wedi bod ar waith ac nad yw eto wedi cael amser i ymsefydlu'n llawn. Felly, yn eu barn nhw, mae'n rhy fuan ar hyn o bryd i ystyried cyflwyno gofyniad statudol newydd.
- Nododd eraill yr angen i fod yn gliriach ynghylch y berthynas rhwng y drefn categoreiddio a'r continwmm sgiliau. Roedd un ymatebwr yn cwestiynu sut y byddai'r system categorïau yn gweithio o fewn canolfannau anghenion dysgu ychwanegol (ADY) / ysgolion arbennig ac mewn ysgolion ffydd.
- Nodwyd bod angen sicrhau bod y categorïau a ddatblygir yn adlewyrchu'r allbwn ieithyddol disgwylidig, nid y mewnbyn yn unig.

Cwestiwn ymgynghori 6: Ydych chi'n cytuno y dylid rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu disgrifiadau'r categorïau mewn rheoliadau?		
Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
183 (53%)	125 (36%)	40 (11%)
<p>Nifer a atebodd y cwestiwn caeëdig = 348</p> <p>Roedd 18 wedi gadael y cwestiwn caeëdig yn wag neu heb ateb yn benodol.</p> <p>Barn sefydliadau: Roedd 40 o ymatebion y gellid eu hadnabod fel rhai a gyflwynwyd ar ran sefydliadau. Ymysg yr ymatebion hyn, roedd y gyfran o ymatebwyr a gytunodd yn llawer uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nododd 35 (88%) eu bod yn cytuno; roedd 1 (2%) yn anghytuno a nododd 4 (10%) nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno.</p>		



Cyflwynodd 99 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd nifer o ymatebwyr yn cytuno'n gryf y byddai gosod y disgrifiadau mewn rheoliadau yn cynnig sail gadarn ar gyfer y categorïau ac yn rhoi statws statudol angenrheidiol iddynt. Roedd yr ymatebwyr hyn hefyd yn credu y byddai gosod y disgrifiadau categori mewn rheoliadau yn sicrhau gwell cysondeb ar draws ysgolion ac yn cryfhau'r angen i ysgolion gynllunio ar gyfer anghenion dysgu proffesiynol eu gweithlu.
- Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn y byddai pennu'r disgrifiadau mewn statud yn ei gwneud yn anodd i unrhyw lywodraeth newydd neu wahanol wyro oddi wrthynt.
- Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr, a oedd yn cytuno gyda'r osodiad hyn at bwysigrwydd sicrhau bod y disgrifiadau yn rhai priodol ac yn cadarnhau'r Gymraeg ym mhob achos. Nodwyd hefyd bod angen i'r disgrifiadau fod yn glir iawn fel y gall ysgolion cynllunio'n glir y cynnydd sydd angen er mwyn symud o un categori i un uwch.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Fel nodir uchod o dan ymatebion i gwestiwn 5, roedd nifer o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn, yn gwrthwynebu unrhyw gategoreiddio ieithyddol ar gyfer ysgolion, yn aml heb ymhelaethu ar eu rhesymau dros hynny.

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd rhai ymatebwyr mai dim ond ar ôl cyfnod o ymgynghori ac ymchwil pellach y dylid cynnal y broses o bennu disgrifiadau categori.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo, er bod yr opsiwn a gynhwysir yn y papur gwyn i ganiatáu i Weinidogion newid y disgrifiadau dros amser yn sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd, roeddent hefyd yn meddwl bod yna risg y byddai cynnwys hyn yn caniatáu i Weinidogion wneud newidiadau yn y dyfodol heb ymgynghori na thrafodaeth.
- Roedd eraill o'r farn na ddylai'r disgrifiadau categori, fod yn rhy ddiffiniol i sicrhau y gellid diwygio unrhyw bwyntiau penodol yn y dyfodol heb ormod o rwystrau deddfwriaethol.

Cwestiwn ymgynghori 7: Beth yw eich barn am gynnwys isafswm o ran amser a ddarperir yn Gymraeg? Beth yw eich barn am effeithiau isafswm o'r fath ar ysgolion, dysgwyr a staff? A ydych yn rhagweld unrhyw effeithiau eraill?

Nid oedd y cwestiwn hwn yn cynnwys cwestiwn caeëdig a oedd yn galluogi ymatebwyr i nodi a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â hyn.

Cyflwynodd 280 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Prif bwyntiau a godwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn

- Roedd y rhan fwyaf a gynigiodd ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn yn croesawu'r syniad o gyflwyno isafswm darpariaeth Gymraeg, neu o leiaf y syniad o wneud hyn mewn egwyddor. Roedd llawer yn gweld hyn fel elfen hanfodol i gyflymu'r llwybr tuag at gyflawni nodau Cymraeg 2050. Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd yn cynnig sylwadau ac yn codi pwyntiau eraill yr oeddent yn teimlo bod angen eu hystyried wrth gyflwyno isafswm o'r fath.
- Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr yr angen i ganolbwyntio ar '*ethos Cymraeg*' ysgolion a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig i ddisgyblion i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth yn ogystal â gosod isafswm o ddarpariaeth Gymraeg yn y dosbarth. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr angen i sicrhau bod isafswm o Gymraeg yn cael ei defnyddio fel iaith gwaith yr ysgol a'r angen i staff swyddfa a chinio ac eraill hefyd ddefnyddio'r Gymraeg.
- Nododd nifer o ymatebwyr eraill eu bod yn croesawu'r cysyniad o isafswm oriau darpariaeth cyn belled â bod y ddarpariaeth honno yn ddigonol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n siaradwyr hyderus. Cyfeiriodd un ymatebydd at dystiolaeth ryngwladol yn dangos na ellir cynyddu defnydd o iaith leiafrifol mewn lleoliad lle siaredir iaith arall gan y mwyafrif, oni bai bod o leiaf 50% o'r addysg sylfaenol yn cael ei darparu yn yr iaith leiafrifol. Awgrymwyd y dylai'r isafswm amser darpariaeth Gymraeg gael ei bennu gan y canlyniadau ieithyddol a ddisgwylir o ganlyniad.
- Nododd nifer o ymatebwyr hefyd mai nid yn unig yr isafswm o amser a ddarperir yn y Gymraeg sy'n bwysig, ond ansawdd yr hyn a ddarperir a'r canlyniadau sy'n deillio o hyn. Yn dilyn hyn, nodwyd hefyd bod angen bod yn glir beth ddylai natur y cyswllt neu'r ddarpariaeth hon fod. A fyddai'n ymwneud â gwersi yn unig neu a fyddai hefyd yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol.

'Mae'n allweddol bod yr amser cyswllt gyda disgyblion yn un ysgogol a chyfoethog ac wedi eu selio ar yr arferion addysgeg gorau.' (Estyn)

- Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr a groesawodd y syniad o isafswm o ddarpariaeth Gymraeg at yr angen am gefnogaeth ddigonol (gan gynnwys hyfforddiant staff, adnoddau dysgu a chyllid) i alluogi rhai ysgolion unigol i gyflawni hyn.
- Ar y cyfan, roedd ymatebwyr nad oeddent yn croesawu'r syniad o osod isafswm o'r farn nad oedd angen hyn; awgrymwyd mai rhieni ac ysgolion unigol ddylai benderfynu faint o wersi Cymraeg y dylid eu darparu.
- Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn pryderu y byddai gosod isafswm o ddarpariaeth Gymraeg yn cael effaith andwyol ar staff addysgu, yn enwedig os nad oeddent yn hyderus wrth addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yr ymatebwyr hyn hefyd yn pryderu y gallai hyn gael effaith andwyol ar bynciau eraill a addysgir yn yr ysgol os cymerir amser i ffwrdd o'r rhain er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.

Gosod ysgolion mewn categori ieithyddol

Cwestiwn ymgynghori 8: Beth yw eich barn am y cynigion ym mharagraffau 51 i 56 ynghylch gosod ysgolion mewn categori ieithyddol a rôl gymeradwyo yr awdurdod lleol yn y broses?

Roedd y cwestiwn hwn mewn fformat testun agored ac felly ni chafodd ymatebwyr yr opsiwn i ateb 'cytuno' neu 'anghytuno'.

Cyflwynodd 221 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Prif bwyntiau a godwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn

- Roedd rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn y byddai gosod ysgolion mewn categori a rhoi rôl gymeradwyo i awdurdodau lleol yn syniad da mewn egwyddor am y rhesymau a nodwyd yn y papur gwyn - hynny yw sicrhau cysondeb a galluogi awdurdodau lleol i feddu ar orolwg cadarnach a bydd hyn yn sicrhau mwy o unfurfedd o ran categorïau'r ysgolion ledled eu sir.
- Nodwyd hefyd byddai cynnwys categori iaith ysgol o fewn set data'r CYBLD² yn galluogi dadansoddiad o gategoriâu ar lefel ysgol, awdurdod ac yn genedlaethol.
- Er bod nifer o ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o roi mwy o gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i wirio a chymeradwyo categorïau ysgolion yn eu hardal, nodwyd hefyd y byddai angen iddynt weithio'n agos gydag ysgolion, llywodraethwyr ysgolion a rhanddeiliaid eraill i gytuno ar y categorïau y mae ysgolion yn cael eu gosod ynddynt. Byddai awdurdodau lleol hefyd angen strwythurau ac adnoddau digonol (staffio ac ariannol) i'w galluogi i gyflawni'r rôl hon.
- Nododd un awdurdod lleol eu bod yn pryderu y byddai awdurdodau yn cael y rôl gymeradwyo hon, a'u bod yn teimlo y byddai hyn yn her sylweddol heb gymorth ychwanegol.
- Nododd nifer o'r ymatebwyr a oedd yn croesawu'r cynigion a nodir ym mharagraffau 51 i 56 y byddai gweithredu hyn yn ddibynol ar sicrhau bod diffiniadau clir ar gael ar gyfer y categorïau. Nodwyd hefyd bod yr hyn a gynigiwyd hefyd yn ddibynol ar y ddyletswydd a roddir ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau clir i ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch sut i fynd ati i bennu eu categorïau.

'If LAs are to be given this important role, then the quality of guidance is of paramount importance to ensure uniformity across LAs and to minimise the risk of tensions arising between governing bodies and schools'.


(Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig).

- Awgrymodd rhai ymatebwyr mai'r pennaeth ysgol, y Corff Llywodraethol, neu'r holl randdeiliaid sy'n ymwneud â'r ysgol ddylai benderfynu ar gategori ysgol, ac nid awdurdodau lleol. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn na ddylid gosod categori iaith ar unrhyw ysgol.

² Mae'r CYBLD, neu'r cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion, yn cael ei gynnal bob mis Ionawr gan bob ysgol feithrin, cynradd, uwchradd, canol ac arbennig a gynhelir yng Nghymru. Rhaid i bob disgybl sydd ar y gofrestr gael ei gynnwys ar y datganiad CYBLD, ac ymhlith data eraill mae'n cynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth Gymraeg yr ysgolion.

- Nododd eraill fod categoreiddio ysgolion wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen mewn perthynas â gwella ysgolion ac yn dadlau nad oedd hyn yn llwyddiannus iawn. Roedd yr ymatebwyr hyn yn pryderu y byddai'r un peth yn berthnasol i categoreiddio ysgolion yn ôl y Gymraeg. Fel y nodwyd uchod mewn perthynas ag ymatebion i gwestiwn 5, mae ymatebion o'r fath yn awgrymu bod diffyg dealltwriaeth ymhlith rhai ymatebwyr o ran sut mae'r broses categoreiddio ysgolion yn gweithio'n ymarferol.

Cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a symud tuag at gategori ieithyddol uwch



Cyflwynodd 187 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod angen i bob ysgol gynyddu ei darpariaeth Gymraeg dros amser i gyrraedd y targedau a osodwyd yn Cymraeg 2050.

'Mae'r cynnig hwn yn gwbl greiddiol i wireddu amcanion y Bil. Fel arall, mae peryg real mai parhau i aros yn eu hunfan yn ieithyddol fydd hanes nifer fawr o ysgolion.' (Prifysgol Bangor)

- Nododd rhai ymatebwyr bod y cynnig wedi'i anelu yn bennaf at ysgolion Saesneg ond mae hefyd yn berthnasol i rai ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn enwedig y rheini nad ydynt yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob pwnc.

'Rhaid cofio fod hyn yn wir nid yn unig i ysgolion cyfrwng Saesneg, ond hefyd i rhai ysgolion naturiol Gymraeg a rhai penodedig Gymraeg sy'n dal i gynnig rhai pynciau fel Mathemateg a Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'n rhaid newid y meddylfryd yma.' (CYDAG)

- Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu beth oedd ystyr y term 'cynyddu darpariaeth Gymraeg dros amser'. Roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo bod angen diffiniad mwy penodol mewn perthynas â'r cyfnod amser y byddai disgwyl gweld y cynnydd hwn.
- Nodwyd bod angen cymorth pellach mewn rhai ardaloedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau yn ogystal â chynyddu darpariaeth y Gymraeg mewn ysgolion. Roedd yr ymatebwyr hyn yn credu y byddai hyn yn sicrhau cefnogaeth ehangach i'r iaith ymhlith rhieni a rhanddeiliaid eraill, ac felly cefnogaeth bellach i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion.
- Nododd nifer o ymatebwyr, er eu bod yn cytuno â'r egwyddor o gynyddu darpariaeth Gymraeg ar draws pob ysgol, bod hefyd angen ystyried hyn yng nghyd-destun adnoddau staffio ac ariannol.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r egwyddor y dylai pob ysgol gynyddu ei darpariaeth Gymraeg dros amser, yn teimlo mai dim ond rhieni, ysgolion unigol, llywodraethwyr ac awdurdodau lleol ddylai benderfynu ar newidiadau yn darpariaeth Gymraeg.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod egwyddor y cynnig yn annog pob ysgol i fod yn ysgolion categori 3 neu 3P. Yn eu barn nhw byddai hyn yn groes i bolisi Cenedl Ddwieithog Llywodraeth Cymru.

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd rhai ymatebwyr fod angen ystyried yn ofalus amseru cyflwyno'r cynnig; awgrymwyd bod angen sicrhau bod ysgolion wedi cael amser i addasu i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru newydd a'r diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Cwestiwn ymgynghori 10: Beth yw eich barn am y cynigion ym mharagraffau 57 i 60 ynghylch y broses o gynyddu darpariaeth Gymraeg ysgolion?

Roedd y cwestiwn hwn mewn fformat testun agored ac felly ni chafodd ymatebwyr yr opsiwn i ateb 'cytuno' neu 'anghytuno'.

Cyflwynodd 226 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Prif bwyntiau a godwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn

- Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at yr hyn a gynigiwyd ym mharagraff 60 - h.y. gosod dyletswydd ar bob ysgol i nodi mewn cynllun cyflawni sut y byddant yn mynd ati i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg yn ymarferol. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod hyn yn angenrheidiol, ond pwysleisiodd llawer fod angen ystyried hefyd yr adnoddau a phwysau gwaith ychwanegol y byddai'r cynllunio hwn yn debygol o'u gosod ar staff ysgol.
- Nodwyd hefyd yr angen i ystyried yr ymarferoldeb sy'n ymwneud â'r cynllunio gan gynnwys y canllawiau angenrheidiol i gefnogi ysgolion i lunio'r cynlluniau hyn a rôl consortia yn y broses.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r Bil gynnwys cynigion cryfach yn ymwneud ag ysgogi ysgolion, a oedd yn nodi yn eu cynlluniau y bwriad i symud i gategori iaith uwch, i ymrwymo i wneud hyn o fewn cyfnod penodol o amser. Nododd ymatebwyr yr angen hefyd i sicrhau bod cymorth ychwanegol ar gael i ysgolion sy'n ymrwymo i hyn gan gynnwys *'roi pŵer i Weinidogion ddarparu cyllid a chefnogaeth benodol i ysgolion mewn cyfnod trosiannol.'*
- Nododd eraill yr angen i alluogi ysgolion i symud ar hyd y continwmm iaith ar gyflymder sy'n addas iddynt ac mewn perthynas â ffactorau demograffig lleol. Yn eu barn nhw, mae hyn yn 'hanfodol' i sicrhau'r gefnogaeth sydd ei hangen i annog ysgolion ar hyd y llwybr hwn.
- Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r cynnig y dylai ysgolion cynllunio i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg, ond nodwyd hefyd y byddai angen cefnogi'r cynlluniau hyn gydag ymdrechion pellach i hyrwyddo'r manteision o fod yn siaradwr Cymraeg i ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg.
- Fe wnaethant hefyd nodi'r angen i ddatblygu a rhannu enghreifftiau o arfer da, i gefnogi ac arwain ysgolion ac awdurdodau lleol i gynllunio eu llwybr ar hyd y continwmm ieithyddol.
- Nododd rhai ymatebwyr bod gallu ysgolion uwchradd i symud o un categori i'r llall yn ddibynnol ar drefniadau a chategoriâu yr ysgolion cynradd yn y clwstwr.

'The ability of a secondary school to transition to the next category is dependent upon the categories of its feeder Primary schools.' (National Education Union Cymru (NEU Cymru))

Monitro cynnydd


Cwestiwn ymgynghori 11: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 62 i 64 ynghylch monitro cynnydd ysgolion?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
151 (54%)	131 (38%)	52 (8%)

Nifer a atebodd y cwestiwn caeëdig = 334

Roedd 32 wedi gadael y cwestiwn caeëdig yn wag neu heb ateb yn benodol.

Barn sefydliadau: Roedd 38 o ymatebion y gellid eu hadnabod fel rhai a gyflwynwyd ar ran sefydliadau. Ymysg yr ymatebion hyn, roedd y gyfran o ymatebwyr a gytunodd yn uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nododd 27 (71%) eu bod yn cytuno; roedd 2 (5%) yn anghytuno a nododd 9 (24%) nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno.



Cyflwynodd 149 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai angen trefniadau monitro er mwyn sicrhau bod ysgolion yn darparu addysg yn unol â'r categori y maent wedi'i osod ynddo. Roedd y rhan fwyaf hefyd yn cytuno y dylai'r gwaith monitro hwn gael ei wneud gan yr awdurdod lleol fel rhan o rôl Swyddogion Gwella a Chefnogi Ysgolion - roedd rhai hefyd yn teimlo y dylid monitro'r cynlluniau darpariaeth ysgolion yn flynyddol er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder.
- Er eu bod yn cytuno gyda'r cynnig o roi'r cyfrifoldeb monitro hwn i awdurdodau lleol, mynegodd rhai awdurdodau lleol bryderon ynglŷn â'r baich gwaith ychwanegol byddai hyn yn gosod ar eu hadnoddau dynol.
- Mynegodd rhai ymatebwyr eraill bryder ynglŷn â'r baich ychwanegol byddai'r proses monitro yn gosod ar ysgolion unigol.
- Cytunodd nifer o ymatebwyr y dylai rôl Estyn fel rhan o'u cylch arolygu, gynnwys adolygu cyflawniad ysgolion yn erbyn y Cynlluniau Gweithredu. I rai o'r ymatebwyr,

roedd y syniad o gynnwys corff allanol fel Estyn o fewn y broses fonitro yn hanfodol. Awgrymodd un ymatebydd y dylai Estyn hefyd edrych ar ddatblygiad y Gymraeg yng nghyd-destun cynlluniau addysg yr awdurdod lleol yn eu cyfanrwydd yn lle, neu yn ogystal ag edrych ar gynlluniau ysgolion unigol.

- Nododd ymatebwyr eraill y byddai cynnwys Estyn yn y broses o fonitro darpariaeth y Gymraeg yn erbyn cynlluniau datblygu'r ysgol yn drysu eu prif rôl fel rheoleiddiwr canlyniadau addysg.
- Fe wnaeth nifer o ymatebwyr bwysleisio'r angen i sicrhau fod rôl monitro awdurdodau lleol ac Estyn yn cael eu cynnal mewn ffordd gefnogol a chydweithredol ac nid mewn ffordd sy'n barnu ysgolion. Roedd rhai yn pryderu byddai rôl Estyn yn y broses yn arwain at fwy o bwysau ar ysgolion a gallai hyn newid 'dynameg' y broses.

'Rydym yn cytuno bod gan yr awdurdod rôl monitro, ond dylid sicrhau bod y monitro'n digwydd mewn ffordd gefnogol ac anogol ac nid mewn unrhyw ffordd fygythiol'. (UCAC)

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Pryder mwyaf ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig y dylai awdurdodau lleol fonitro cynnydd ysgolion yn narpariaeth y Gymraeg, oedd nad oedd gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau ar gael i wneud hyn. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn hefyd o'r farn bod prosesau presennol o fonitro cynnydd drwy adolygiad blynyddol o'r CSCA yn briodol ac yn ddigonol.
- Roedd eraill o'r farn bod ysgolion eisoes yn cael eu monitro'n ormodol a byddai'r monitro ychwanegol hwn yn creu haen arall o waith a straen ychwanegol i ysgolion.

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Dyw'r Papur Gwyn ddim yn sôn y dylai consortia cael rôl i fonitro a yw ysgolion yn darparu addysg Gymraeg yn unol â'r categori maen nhw wedi eu gosod. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai'r Bil nodi rôl glir i gonsortia yn hyn o beth. Roedd eraill yn teimlo'n gryf na ddylai consortia fod yn rhan o'r broses fonitro hon.
- Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu sut y bydd cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei fesur. Efallai na fydd mesur yn ôl allbynnau, fel canlyniadau arholiadau, yn rhoi adlewyrchiad teg ar gynnydd. Ar y llaw arall, nodwyd y gall mesur cynnydd mewn mewnbynnau, fel nifer ac amllder gwersi, fod yn anodd eu monitro yn ymarferol.
- Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn cwestiynu beth fyddai'r canlyniadau pe bai'r broses fonitro yn adnabod ysgol sydd heb symud rhwng categorïau a/neu sydd heb ddangos unrhyw gynnydd yn narpariaeth Gymraeg. Os yw ysgol yn teimlo nad oes modd cyflawni cynlluniau i symud ymlaen o fewn categori, neu symud i gategori uwch, pam y byddant yn gweithio tuag ato?

Gosod categori i ysgol newydd

Cwestiwn ymgynghori 12: Beth yw eich barn ynghylch sut ddylai awdurdod lleol benderfynu ai ysgol cyfrwng Cymraeg fyddai ysgol newydd a sefydlir?

Roedd y cwestiwn hwn mewn fformat testun agored ac felly ni chafodd ymatebwyr yr opsiwn i ateb 'cytuno' neu 'anghytuno'.

Cyflwynodd 247 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Prif bwyntiau a godwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn

- Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn credu y dylid gosod rhagdybiaeth bod unrhyw ysgol newydd sy'n cael ei hagor yn ysgol Gymraeg neu'n ysgol ddwy iaith.
- I'r ymatebwyr hyn, byddai hyn yn gyfraniad allweddol tuag at gyflawni nod craidd y Bil h.y. cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Roedd rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn hefyd yn credu y dylid gosod isafswm categori iaith ar gyfer pob ysgol gynradd newydd ar draws pob ardal yng Nghymru. Hynny yw agor unrhyw ysgol newydd yng Nghymru yn un categori 2 fan leiaf, a chategori 3 mewn rhai ardaloedd. Roedd nifer o'r ymatebwyr hyn hefyd yn credu mai Llywodraeth Cymru ddylai osod y lleiafswm hwn - gallai awdurdodau lleol osod categori isafswm uwch os dymument.
- Fodd bynnag, nodwyd hefyd y dylai Cynlluniau Gweithredu Addysg Gymraeg lleol ddylanwadu ar gategori iaith unrhyw ysgol newydd.
- Nododd rhai ymatebwyr y byddai gosod isafswm cenedlaethol ar gyfer categori iaith pob ysgol newydd hefyd yn dileu dylanwad gwleidyddiaeth leol o'r broses o gynllunio datblygiad ysgolion newydd. Er fe nododd ymatebwyr eraill, nad oeddent yn gefnogol i'r syniad y dylai pob ysgol newydd fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg, eu bod yn credu y byddai dull o'r fath yn annemocrataidd ac yn tynnu dewis rhieni o'r broses.
- Nododd rhai ymatebwyr y dylai pob disgybl ysgol yng Nghymru gael yr hawl i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Nodwyd hefyd nad all rhai plant wneud hyn ar hyn o bryd oherwydd nad oes darpariaeth ar gael yn agos i'w cartref. Mae hyn, ym marn yr ymatebwyr hyn, nid yn unig yn pwysleisio'r angen am fwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond hefyd yn awgrymu y dylai awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau trafndiaeth am ddim i alluogi plant deithio i'r ysgol Gymraeg agosaf atynt.

'Gan mai amcan canolog y Bil ydy cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg, a hynny er mwyn gwireddu nod y miliwn siaradwyr, mae'n allweddol felly fod penderfyniadau ynghylch ysgolion newydd yn cefnogi'r nod hwnnw.'
(Prifysgol Bangor)

'Dylid gosod rhagdybiaeth ar wyneb y Bil y bydd pob ysgol newydd yng Nghymru yn ysgol Gymraeg.' (Ymgyrch Cymdeithas yr Iaith)

- Nododd nifer o'r ymatebwyr a oedd yn credu, mewn egwyddor, y dylid gosod rhagdybiaeth y byddai unrhyw ysgol newydd yn ysgol cyfrwng Cymraeg, bod angen hefyd ystyried nifer o ffactorau eraill, gan gynnwys ffactorau lleol gan gynnwys:
 - Sgiliau Cymraeg y gweithlu addysgu lleol,
 - Barn rhieni a rhanddeiliaid lleol,

- Y canlyniadau anfwriadol posibl neu amhariad ar ddarpariaeth Gymraeg presennol yn yr ardal,
- Yr adnoddau y byddai rhai awdurdodau lleol eu hangen i alluogi hyn i ddigwydd.
- Roedd gan rai ymatebwyr, a oedd yn gefnogol i'r syniad y dylai bob ysgol newydd fod yn ysgol Gymraeg, bryderon y gallai agor ysgol Gymraeg newydd heb ymgynghori na sicrhau cefnogaeth leol iddi droi rhai pobl yn erbyn y Gymraeg. Byddai hyn yn eu barn hwy, yn niweidiol i'r iaith a'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn yn teimlo bod angen mwy o waith i hybu manteision addysg Gymraeg a magu mwy o gefnogaeth am addysg Gymraeg.


'It should be a local decision based on local knowledge but we would support a minimum of a category 2 school (bilingual).' (Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg Cyngor Bwrdeistref Conwy)

- Roedd ymatebwyr eraill yn credu y dylai categori iaith ysgol newydd fod yn benderfyniad a wneir gan awdurdodau lleol ac yn seiliedig ar y galw yn lleol am ddarpariaeth Gymraeg, ac yn seiliedig ar dystiolaeth am y galw, yn hytrach na pholisi statudol. Roedd yr ymatebwyr hyn yn dueddol o ffafrio dilyn trywydd yr hyn a amlinellir ym mharagraff 66 y ddogfen ymgynghori y byddai angen asesiad penodol o'r effaith ar iaith cyn pennu cyfrwng iaith ysgol newydd yn hytrach na gosod rhagdybiaeth fod ysgol newydd yn gyfrwng Cymraeg.
- Nododd rhai o'r ymatebwyr hefyd fod y cwricwlwm newydd a'r cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Gweithredu Addysg Gymraeg diweddaraf eisoes yn cynnwys ffocws ar gynyddu darpariaeth Gymraeg o fewn pob ysgol. O'r herwydd roeddent o'r farn nad oedd angen cyflwyno rhagdybiaeth neu bolisi y byddai pob ysgol newydd yn ysgol cyfrwng Cymraeg.

'The language category of a new school should be decided based on the outcome of a specific language impact assessment, along with consideration of WESP/WEIP targets'. (Cyngor Sir Powys)

7. Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg (Pennod 4)

Creu dolen gyswllt rhwng targedau cenedlaethol a thargedau lleol y Gymraeg mewn addysg



Cyflwynodd 126 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Credodd nifer fawr o ymatebwyr bod angen i'r Cynllun Cenedlaethol gynnwys y sector gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar yn ogystal â'r sector ôl-16/Addysg Uwch.
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen i Gynllun o'r fath gael ei adolygu yn fwy aml nag unwaith bob tymor seneddol.

- Roedd nifer yn credu y byddai Cynllun Cenedlaethol yn gosod arweiniad a chyfeiriad ar ddefnydd y Gymraeg yn ogystal â threfniadau i gefnogi caffael yr iaith. Hefyd, adroddodd rhai ymatebwyr y byddai Cynllun Cenedlaethol yn sicrhau cysondeb ar draws yr holl ardaloedd lleol.
- Roedd llawer yn cytuno y dylai'r ddyletswydd ddisgyn ar Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, nodwyd yr angen i Weinidogion weithio'n agos gydag athrawon a phobl ifanc ar draws Cymru fel rhan o'r broses o lunio a gweithredu'r Cynllun.
- Nododd rhai eu bod yn teimlo y gallai gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i greu Cynllun Cenedlaethol gryfhau'r cydweithio rhwng rhanddeiliaid ac arwain at lwybr cliriach i gefnogi dysgwyr ar hyd cyfnodau addysg.
- Roedd rhai ymatebwyr yn pwysleisio y byddai angen targedau i gofnodi cynnydd a chefnogi mesurau atebolrwydd. Nodwyd bod angen i'r Cynllun gynnwys digon o fanylder er mwyn cefnogi pawb sydd yn rhan o'r system addysg.

'Mae 'na le i gydlynu yn fwy effeithiol, gyda gwaith pellach ei angen ar hyd siwrnai addysgol dysgwr, ond yn enwedig o safbwynt llwybrau dysgu 14+ a rôl addysg bellach ac addysg uwch wrth gynnig cyfleodd i gwrdd â'r angen am ddilyniant ieithyddol i ddysgwyr wedi oedran addysg statudol.

Tybed ydi'r cyfnod monitro yn rhy hir dymor...a ddylid adolygu cynllun fel hyn yn fwy mynych yn ystod pob tymor Seneddol' (Cyngor Sir Caerfyrddin)

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd nifer fechan o ymatebwyr o'r farn y dylai'r Cynllun gael ei lunio gan arbenigwyr iaith ac addysgu, a'i gyflwyno i'r Gweinidog i dderbyn sêl bendith.
- Dywedodd nifer o ymatebwyr bod angen i'r Gweinidog ffocysu ar faterion pwysig eraill, yn hytrach na chreu Cynllun Cenedlaethol.

'There are higher priorities as far as education is concerned. Maths, the sciences, etc.' (Dienw – ymateb i'r holiadur ar lein)

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd rhai yn cytuno y byddai Cynllun Cenedlaethol yn sicrhau dull cyson ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg, ond hefyd yn pwysleisio cyfraniad cynlluniau eraill (e.e. CSCAau).
- Nodwyd bod yr anghenion penodol ar gyfer caffael a dysgu'r iaith yn amrywio o ardal i ardal. Awgrymwyd bod angen cefnogaeth effeithiol ar yr awdurdodau lleol er mwyn i bob un gallu cyrraedd eu targedau.
- Nododd ymatebwyr eraill bod y ffaith fod y trefniadau cwricwlwm newydd yn caniatáu i ysgolion greu cwricwlwm eu hunain yn ei gwneud hi'n anodd dylunio Cynllun Cenedlaethol cyson.

'Mae pob ALL yn wahanol gyda anghenion penodol i wella darpariaeth yr iaith, mae pob ysgol yn wahanol ac yn cynnig cwricwlwm eu hunain yn ôl y cwricwlwm newydd felly rhaid ystyried hyn wrth greu unrhyw cynllun gweithredu penodol.' (Dienw – ymateb i'r holiadur ar lein)


Cwestiwn ymgynghori 14: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 73 a 74 i bennu targedau cenedlaethol ynghylch y gweithlu addysg a'u cynnwys yn y Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
174 (51%)	142 (42%)	26 (8%)

Nifer a atebodd y cwestiwn caeëdig = 342

Roedd 24 wedi gadael y cwestiwn caeëdig yn wag neu heb ateb yn benodol.

Barn sefydliadau: Roedd 40 o ymatebion y gellid eu hadnabod fel rhai a gyflwynwyd ar ran sefydliadau. Ymysg yr ymatebion hyn, roedd y gyfran o ymatebwyr a gytunodd yn llawer uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nododd 33 (83%) eu bod yn cytuno; roedd 1 (3%) yn anghytuno a nododd 6 (15%) nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno.



Cyflwynodd 129 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nodwyd bod angen cynnydd sylweddol yn nifer yr athrawon sy'n medru dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â sicrhau bod llai o athrawon yn gadael y proffesiwn.
- Nodwyd hefyd yr angen i adnabod ymarferwyr sydd â'r potensial i ddod yn athrawon Cymraeg / i addysgu trwy'r Gymraeg i gael hyfforddiant ieithyddol a'r gefnogaeth angenrheidiol.
- Awgrymodd nifer fawr o ymatebwyr bod angen buddsoddi yn ariannol er mwyn hybu cyrsiau hyfforddi er mwyn denu rhagor o bobl i'r sector addysgu.
- Fe nododd rhai ymatebwyr y diffyg amrywiaeth yn y sector addysg ar hyn o bryd, a galw am gamau i ddenu rhagor o unigolion o grwpiau lleiafrifol i'r proffesiwn.
- Roedd rhai yn cytuno dylai'r Bil Addysg Gymraeg orfodi'r holl randdeiliaid i gydweithio er mwyn cyrraedd targedau ymarferol Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg.
- Un argymhelliad arall a gynigiwyd oedd cynnig blwyddyn i ffwrdd i fyfyrwyr a chynnig blwyddyn o brofiad gwaith mewn lleoliad addysg. Byddai hynny'n rhoi amser iddynt

dderbyn cefnogaeth er mwyn symud ymlaen i astudio i ddod yn rhan o'r sector addysg.

'We start from a very low base! In addition, substantial bursaries are currently offered to train and teach in England - unless Welsh Government can find the substantial means to match this the drain will inevitably continue. WG must devise incentives to encourage young people to train to teach through the medium of Welsh. Historically, Welsh language teaching has lagged behind MFL, relying on native speakers and a process of osmosis, long discredited in MFL. Potential Welsh teachers must be trained as linguists if effective progress is to be made particularly in anglicised areas of Wales.' (Dienw – ymateb i'r holiadur ar lein)

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd rhai yn pryderu y byddai'r cynigion yn gosod gormod o bwysau ar ysgolion i wneud gormod o newidiadau. Teimlai rhai hefyd bod risg colli athrawon o'r proffesiwn.

'It's a great idea, but again, are you ostracising amazing teachers on their level of Welsh speaking. What if they do not want to learn Welsh? Do they not get the right to continue teaching otherwise? We could lose many of them and put immense pressure on others. If you were to do this, then feasible courses need to be given, ones catered to teachers and their workload.' (Dienw – ymateb i'r holiadur ar lein)

- Roedd nifer fechan o ymatebion yn adrodd bod y cynigion yn wastraff arian, a bod risg o ddiethrio rhai unigolion a grwpiau nad ydynt yn cefnogi amcanion y Bil.


'The application of targets for the number of Welsh teachers and Welsh-medium teachers can place unwarranted pressures on schools and centres to change their workforce in such a way that sees employees who do not meet the target specifications find their livelihoods threatened. This would be an unacceptable scenario for all trade unions.' (NASUWT Cymru)

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd rhai, a oedd serch hynny'n cytuno gyda'r egwyddor o osod targedau, y byddai'n amhosibl cyflawni'r targedau heb gefnogaeth ac adnoddau pellach.
- Pwysleisiodd nifer fechan o ymatebwyr eu bod nhw yn cydnabod mai dim ond mynd i'r afael â'r Gymraeg mewn addysg y bwriedir yn y papur gwyn, ond nodwyd bod diffyg cydnabyddiaeth bod y broblem sy'n wynebu'r Gymraeg yn ddiwylliannol. Felly i ddatrys y broblem, awgrymwyd y bydd angen gweithredu sy'n mynd tu hwnt i'r gyfundrefn addysg.
- Nododd rhai ymatebwyr bod angen cynnwys targedau cenedlaethol ynghylch nifer yr athrawon sydd eu hangen fel rhan o'r Cynllun Cenedlaethol.

8. Cynllunio'r Gymraeg mewn addysg mewn awdurdodau lleol (Pennod 5)

Yn yr adran hon mae yna gynigion ynghylch diwygio'r system o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a gaiff eu llunio gan awdurdodau lleol. Cynigir y dylid symud y ffocws tuag at gynlluniau gweithredu yn amcanu i wireddu'r targedau a osodir gan Weinidogion Cymru ynghylch cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn ysgolion yr awdurdod lleol.



Cyflwynodd 92 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd ymatebwyr bod y deilliannau yn cynnig ffocws ar gyfer cynllunio cenedlaethol a lleol ac yn amlygu'r llwybr a geisir ei chyflawni yn glir.
- Atebodd nifer o ymatebwyr gan nodi y bydd y deilliannau yn gosod mwy o bwyslais ar weithredu wrth feddwl am gynllunio.

- Cafwyd cefnogaeth i'r deilliannau gan nifer o ymatebwyr, ond nodwyd pryderon ynghylch maint y dasg o sicrhau gweithlu dwyieithog digonol er mwyn gwireddu amcanion y Bil. Nodwyd bod yr her o dyfu'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth genedlaethol ac yn rhywbeth na fydd modd datrys ar y lefel leol yn unig.

'Mae'r cyfeiriadau ym mharagraff 80 at yr angen i gynllunio'r gweithlu addysg yn lleol yn heriol.... Mae cynlluniau lleol yn gallu cael effaith ar staff sydd eisoes wedi eu cyflogi gan yr ALI yn unig, ac nid oes ganddynt fawr o ddylanwad ar gynyddu nifer y athrawon dan hyfforddiant sy'n cael eu recriwtio bob blwyddyn.' (Ymateb ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC))

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd rhai ymatebwyr nad yw'r deilliannau yn ddigon penodol - awgrymwyd yr angen am dargedau mwy penodol yn gysylltiedig â'r deilliannau.
- Nododd eraill na ddylid symud i ffwrdd o drefn CSCAau; gallai'r cynnydd a wnaed gael ei danseilio a'r risg o effeithio'n negyddol ar berthnasoedd gyda phartneriaid.
- Nododd rhai y dylai awdurdodau lleol unigol benderfynu p'un ai i symud o CSCAau i CGCAau.
- Roedd rhai yn anghytuno gyda *'gorfodi'r Gymraeg'* ar ddysgwyr; dylai rhieni gael y dewis o addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg ond ni ddylid gorfodi addysg Gymraeg ar deuluoedd. Nododd lleiafrif fod y cynigion yn mynd yn groes i'r Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Yn ôl rhai ymatebwyr, bydd y deilliannau yn cael effaith andwyol ar ansawdd addysgu, gan osod rhagor o bwysau ar y gweithlu addysg.

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Cyfeiriodd ymatebwyr at bwysigrwydd sicrhau isadeiledd (ac adnoddau) ar y lefel genedlaethol er mwyn cefnogi gweithredu cynlluniau lleol.

'Pathways and progression for language acquisition and staff training need to be made clear in order to effectively achieve the targets set out in the WESP (Colegau Cymru, ITE, Welsh language courses, available resources) as there is a general consensus that the provision currently happens on an 'ad hoc' basis with no real future proofing and planning e.g. sabbatical course. There could also be a significant financial implication for LAs as an officer would be needed to assist schools with effective planning, signposting and management of their individual school plans to move along the continuum.' (Cyngor Castell-nedd Port Talbot)

- Pwysleisiodd sawl ymatebydd yr angen i sicrhau fod awdurdodau lleol yn gosod targedau 'heriol ond realistig' o fewn eu CGCA yn y dyfodol a'u bod yn cael eu dal yn atebol am y targedau lleol hynny. Nododd yr ymatebwyr hyn y dylid fod rhagor o ddeilliannau, gyda *'thargedau meintiol clir, gyda rhagor ohonynt, yn cynnwys targedau ar gyfer gwahanol grwpiau oedran yn benodol'* (Ymateb ymgyrch Cymdeithas yr Iaith).
- Nodwyd bod angen pwysleisio rôl lleoliadau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar wrth gynllunio at y dyfodol a chefnogi'r deilliannau. Cyfeiriodd ymatebwyr at y ffaith

fod y mwyafrif o deuluoedd yn gwneud penderfyniadau am gyfrwng iaith addysg eu plant yn y cyfnod cyn cychwyn addysg statudol.

- Awgrymodd ymatebwyr bod angen diffinio rôl y sector ôl-16 yn fwy clir, gan gynnwys ystyried deilliannau ar gyfer darpariaeth o fewn meysydd pwnc mewn addysg bellach ac addysg uwch. Yn gysylltiedig â hyn, nodwyd yr angen i sicrhau cydgyllunio rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach i sicrhau dilyniant ieithyddol effeithiol i ddysgwyr ol-16.
- Awgrymodd sawl ymatebydd bod materion yn ymwneud â chludo plant i ysgolion Cymraeg ar goll. Dylid cynnwys cymalau yn y Bil sy'n sicrhau nad yw addysg Gymraeg o dan anfantais yn sgil pellter ysgolion o'r cartref, yn enwedig yng nghydestun yr argyfwng costau byw sy'n wynebu teuluoedd.

'Rhaid sicrhau nad yw addysg, a felly ysgolion cyfrwng Cymraeg, o dan anfantais oherwydd pellter yr ysgolion o'r cartref. Rhaid ystyried deddfu i sicrhau bod cludiant i'r lleoliad addysg cyfrwng Cymraeg agosaf yn cael ei gynnig, am ddim, i bob plentyn ble nad yw hynny o fewn pellter cerdded rhesymol o'r cartref, a hynny ar hyd cyfnod y plentyn ym myd addysg (o 3 i 18 oed i fod yn ymarferol i deuluoedd).' (Mudiad Meithrin)

- Nododd ymatebwyr eraill bod angen adlewyrchu cyfraniad y sector dysgu gydol oes tuag at gyrraedd y miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Pwyntiau a godwyd mewn perthynas â deilliannau penodol

- Deilliant 1: Mwy o blant meithrin neu tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
 - Mae angen cyllid a chefnogaeth i alluogi ysgolion cyfrwng Saesneg i wireddu hyn. Mae ansicrwydd am allu/capasiti'r sector di-Gymraeg i gyflawni'r deilliant hwn ar hyn o bryd.
- Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
 - Mae angen mwy o sylw ar ddulliau o gefnogi dysgwyr sy'n dymuno astudio Cymraeg fel pwnc Safon Uwch.
 - Mae angen gwahanu'r deilliant yn ddau (cymwysterau Cymraeg fel pwnc a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg) er mwyn datblygu mesuryddion penodol ar gyfer ysgolion mewn categorïau gwahanol.
- Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd destunau gwahanol yn yr ysgol.
 - Awgrymwyd y dylid ystyried ymestyn y Deilliant hwn i gynnwys cynllunio ar gyfer annog defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau y tu allan i'r ysgol fel bod y Gymraeg 'yn fwy na dim ond iaith addysg'.
 - Nododd ymatebwyr bod angen cynnwys Gwasanaethau Ieuencid o fewn yr elfen hwn, a sicrhau mwy o arlwy yn y Gymraeg o fewn darpariaeth gwasanaethau ieuencid 'er mwyn pontio'r ysgol a'r gymuned'.
- Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

- Nodwyd bod angen annog a sicrhau ‘*cydweithio bwriadus rhwng sefydliadau ac asiantaethau i sicrhau’r gefnogaeth addas yn ôl y plentyn nid yn ôl gwerth am arian i’r awdurdod lleol.*’ (Rheini dros Addysg Gymraeg (RhAG))
- Deilliant 7: Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy’n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg
 - Dylid sicrhau bod cydbwysedd teg rhwng yr hyn y mae angen i awdurdodau lleol ei gyflawni a’r hyn sydd angen i weinidogion Cymru ei gyflawni.


Cwestiwn ymgynghori 16: Ydych chi’n cytuno gyda’r cynnig i gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) ar ôl 5 mlynedd i alinio gydag adroddiad cynnydd 5 mlynedd y Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
177 (52%)	125 (37%)	38 (11%)

Nifer a atebodd y cwestiwn caeëdig = 340

Roedd 26 wedi gadael y cwestiwn caeëdig yn wag neu heb ateb yn benodol.

Barn sefydliadau: Roedd 39 o ymatebion y gellid eu hadnabod fel rhai a gyflwynwyd ar ran sefydliadau. Ymysg yr ymatebion hyn, roedd y gyfran o ymatebwyr a gytunodd yn llawer uwch na’r ffigur cyfatebol ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nododd 35 (90%) eu bod yn cytuno; roedd 2 (5%) yn anghytuno a nododd 2 (5%) nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno.



Cyflwynodd 98 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i’r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda’r cwestiwn hwn

- Roedd ymatebwyr yn cytuno y byddai’n fuddiol alinio’r ddwy broses er mwyn cryfhau trefniadau cynllunio i gefnogi addysg Gymraeg, a sicrhau fod cynlluniau’r awdurdodau yn parhau yn gyfredol.

- Nodwyd bod adolygu bob 5 mlynedd yn gyfnod rhesymol; yn arfer dda i adolygu'r cynlluniau yn rheolaidd er mwyn gallu cyfeirio at lwyddiannau a mynd i'r afael â diffygion wrth symud ymlaen.
- Nododd ymatebwyr y byddai'r trefniadau hyn yn cynnig cyfle i sicrhau cysondeb rhwng y Cynllun Cenedlaethol a chynlluniau gweithredu lleol.
- Roedd rhai o'r farn ei fod yn hanfodol bod trefniadau monitro gofalus a chadarn yn eu lle. Wrth adolygu'r Cynllun, dylid gwneud yn glir beth sydd yn digwydd nesaf a pha gefnogaeth sydd ei hangen er mwyn sicrhau gweithredu effeithiol.
- Pwysleisiodd eraill ei bod yn bwysig bod y Llywodraeth yn datblygu system o sicrhau gwell cysondeb ar draws awdurdodau lleol wrth weithredu'u cynlluniau.
- Awgrymodd rhai y dylai fod rôl gan Estyn i fonitro'r cynlluniau fel rhan o'u trafodaethau cyson gydag awdurdodau, a chynnal monitro ffurfiol ar gais gan y Llywodraeth, yn ôl yr angen.
- Awgrymodd eraill y dylid hefyd alinio cynlluniau ariannu cyfalaf i gyd-fynd â'r adolygiad o'r CGCAu.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd teimlad ymysg rhai sefydliadau – awdurdodau lleol yn benodol – y dylid aros gyda'r cynlluniau CSCAau cyfredol, gan fod cryn gwaith wedi mynd i fewn i'w datblygiad, a'r partneriaethau gyda rhanddeiliaid lleol.

'A huge amount of work has gone into writing this plan co-constructed with stakeholders. The local authority's WESP was deemed to be positive by Welsh Government, and it was approved.' (Sefydliad – am aros yn ddiennw)

'LAs have invested a significant amount of time in developing and promoting the current WESP 'buy-in' from schools and the wider community. Significant changes to this current 10 year cycle would prove very detrimental to this process.' (Sefydliad – am aros yn ddiennw)

- Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, roedd rhai sefydliadau yn cwestiynu'r angen i ddisodli'r CSCAau cyfredol, gan nodi y gallai hynny ddargyfeirio amser swyddogion i ffwrdd o weithredu. Gallai newidiadau o'r fath achosi aflonyddwch a dryswch.

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd rhai ymatebwyr eraill bod pum mlynedd yn gyfnod rhy hir ac y dylid sicrhau monitro/adolygiad parhaus o weithrediad y cynlluniau. Dywed ymatebwyr bod angen system sy'n medru rhoi sylw brys i faterion sy'n codi'n lleol, *'fel bod ymyrraeth gan Weinidogion yn gallu digwydd ar frys'* (Dyfodol i'r laith).

'Mae angen system yn ei lle a fyddai'n gallu gwarantu ymateb ar fyrder i unrhyw argyfwng a allai godi.' (UCAC)

- Mynegwyd pryderon, unwaith yn rhagor, am gapasiti'r gweithlu i weithredu cynlluniau yn effeithiol.

Gweinidogion Cymru i osod targedau y Gymraeg mewn addysg ar gyfer pob awdurdod lleol


Cwestiwn ymgynghori 17: Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylai targedau y Gymraeg mewn addysg gael eu gosod ar awdurdodau lleol gan Weinidogion Cymru?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
145 (42%)	168 (49%)	33 (9%)

Nifer a atebodd y cwestiwn caeëdig = 346

Roedd 20 wedi gadael y cwestiwn caeëdig yn wag neu heb ateb yn benodol.

Barn sefydliadau: Roedd 41 o ymatebion y gellid eu hadnabod fel rhai a gyflwynwyd ar ran sefydliadau. Ymysg yr ymatebion hyn, roedd y gyfran o ymatebwyr a gytunodd yn llawer uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nododd 27 (66%) eu bod yn cytuno; roedd 5 (12%) yn anghytuno a nododd 9 (22%) nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno.



Cyflwynodd 134 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd ymatebwyr y byddai hyn yn ffordd o osod nodau priodol, heriol a chyraeddadwy i wahanol awdurdodau, gan adlewyrchu gwahanol gyd-destunau ieithyddol ac ystyriaethau demograffeg ar draws Cymru.

'Credwn bod angen sicrhau fod y targedau a osodir gan Weinidogion Cymru yn rhai sy'n addas i amgylchiadau lleol ond ar yr un pryd yn ddigon uchelgeisiol.' (Estyn)

- Nododd rhai sefydliadau eu bod yn cefnogi'r ffaith y byddai Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am gynllunio cynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol ar lefel strategol.

'Yn y gorffennol, rhieni a grwpiau pwyso eraill sydd wedi arwain y galw. Yr ydym yn sicr yn croesawu fod Llywodraeth Cymru bellach yn rhoi'r arweiniad strategol yn y maes.' (Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG))

- Yn ôl nifer o ymatebwyr, byddai targedau yn sicrhau tryloywder ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod targedau sydd yn cyfrannu tuag at wireddu polisi iaith cenedlaethol.

'Dylai'r targedau hyn gael eu gosod ar sail targedau sydd wedi'u alinio gyda targedau Cymraeg 2050. Byddai gosod y dyletswydd ar Weinidogion Cymru hefyd yn sicrhau bod targedau yn ystyried cyfraniad pob awdurdod lleol tuag at y targedau cenedlaethol, ac yn rhoi cynllun clir a phendant ar gyfer gwireddu uchelgais Cymraeg 2050.' (Mudiad Meithrin)

- Dylai'r targedau hyn daflunio ymlaen i 2050 a bod yn sail statudol ar gyfer llywio cynllunio lleol i gefnogi twf addysg Gymraeg.
- Nodwyd yr angen am gyd-drafod rhwng awdurdodau a Llywodraeth Cymru er mwyn cytuno a diweddarau targedau, a sicrhau bod gan awdurdodau lleol 'berchnogaeth a dyhead i gyflawni'r targedau'.

'Dylai'r broses hon fod yn seiliedig ar drafodaethau manwl gydag awdurdodau lleol a dylid ystyried tystiolaeth allanol hefyd.' (Cyngor Sir Ynys Môn)

- Nododd sawl ymatebydd eu bod yn croesawu'r cynigion y gall Weinidogion Cymru osod disgwyliadau uwch mewn rhai ardaloedd penodol er mwyn gwarchod y Gymraeg fel iaith gymunedol.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd rhai ymatebwyr y dylid cytuno ar dargedau gydag awdurdodau lleol yn hytrach na'u gosod gan Weinidogion Cymru. Pwysleisiodd rhai ymatebion gan awdurdodau lleol bod angen yr hyblygrwydd arnynt i ymateb i dargedau mewn ffordd sy'n adlewyrchu cyd-destunau a heriau lleol.
- Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno gan esbonio bod angen cefnogaeth ac adnoddau pellach ar awdurdodau lleol er mwyn medru cyflawni targedau.
- Roedd pryderon gan rai ymatebwyr y byddai targedau'n cael eu gosod heb fod gweithlu digonol ar gael yn lleol i gyflawni'r targedau hynny.
- Nododd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol eu bod eisoes yn gweithio tuag at dargedau uchelgeisiol o fewn eu CSCA.

'We feel that this is the maximum we can achieve within the 10-year lifespan of the current WESP. Anything higher is not considered to be achievable within the demographic of the LA.' (Sefydliad – am aros yn ddiennw)

‘Although we agree that there needs to be a National Plan, it should not remove powers from the local authority to make decisions about schools by Welsh Government setting ‘firm expectations’ for local authorities.’

(Sefydliad – am aros yn ddiennw)

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda’r cwestiwn hwn

- Nododd ymatebwyr y dylai fod adnoddau ariannol a chefnogaeth yn eu lle i gefnogi awdurdodau lleol i gyrraedd y targedau (awdurdodau lleol a nododd hyn);
- Nododd rhai ymatebwyr (gan gynnwys cynrychiolwyr undebau athrawon) eu bod yn pryderu y gallai gosod targedau o’r fath ar lefel awdurdodau lleol gael effaith ar lefel yr ysgol a’r ystafell ddosbarth a gosod pwysau ychwanegol ar athrawon.

Gweinidogion Cymru yn comisiynu adolygiad o CGCA arfaethedig drafft


Cwestiwn ymgynghori 18: Ydych chi’n cytuno gyda’r cynnig i Weinidogion Cymru gomisiynu adolygiad allanol o gynnwys Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) drafft pan fo’n briodol?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
174 (51%)	114 (34%)	50 (15%)

Nifer a atebodd y cwestiwn caeëdig = 338

Roedd 28 wedi gadael y cwestiwn caeëdig yn wag neu heb ateb yn benodol.

Barn sefydliadau: Roedd 40 o ymatebion y gellid eu hadnabod fel rhai a gyflwynwyd ar ran sefydliadau. Ymysg yr ymatebion hyn, roedd y gyfran o ymatebwyr a gytunodd yn llawer uwch na’r ffigur cyfatebol ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nododd 31 (78%) eu bod yn cytuno; roedd 2 (5%) yn anghytuno a nododd 7 (18%) nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno.



Cyflwynodd 89 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno gyda'r cynnig, gan nodi nad yw rhai o'r cynlluniau presennol 'yn ddigon uchelgeisiol' a 'heb weledigaeth'. Nododd rhai ymatebwyr y gallai adolygiadau annibynnol 'bwysu ar awdurdodau lleol' i freinio'u cynlluniau a'u gweithredu er mwyn sicrhau cynnydd yn erbyn y targedau.
- Nododd ymatebwyr y byddai barn allanol wrthrychol ac arbenigol yn werthfawr ac yn fodd o sicrhau bod datblygiadau yn cael eu hadeiladu ar sail ymchwil.

'O fod wedi craffu'n fanwl ar bob CSCA drafft yn 2021/2022 rydym yn llwyr ymwybodol o gymhlethdod trefniadau addysg leol. Rydym felly yn meddwl ei bod yn synhwyrol galluogi Gweinidogion Cymru i gomisiynu adolygiad o CGCA drafft, gan dderbyn tystiolaeth arbenigol ar faterion penodol a lleol.'
(Comisiynydd y Gymraeg)

- Nododd eraill y byddai'r cynnig yn sicrhau bod y prosesau adolygu a gwerthuso yn fwy effeithiol ac yn cyflymu'r broses o sicrhau bod awdurdodau yn mynd i'r afael â gwendidau yn eu cynlluniau neu eu gweithredu.
- Nodwyd yr angen am eglurder ar rolau a chyfrifoldebau unrhyw bartneriaid sy'n gyfrifol am gynnal adolygiadau allanol.

'Pan fo'n briodol, byddai'n fuddiol yn ein tyb ni i gomisiynu barn allanol annibynnol cyn penderfynu p'un ai i gymeradwyo, cymeradwyo gydag addasiadau neu i wrthod cymeradwyo y CGCA drafft. Mae'n bwysig fod eglurder ynglŷn â phwrpas adolygiad a beth fyddai'r deilliannau posib, gan gynnwys terfynau amser i gryfhau'r drafft os cyfyd yr angen i wneud hynny.'
(Estyn)

- Tanlinellodd ymatebwyr yr angen i sicrhau bod unrhyw gyrrff sy'n cynnal adolygiadau yn arbenigwyr ac yn cynnal y gwaith mewn ffordd sy'n cefnogi egwyddorion y Bil.

'Mae tryloywder yn hollbwysig ac os yw'r cynnig uchod yn golygu y bydd mwy o dryloywder, yna rhaid cytuno ag ef. Wrth gomisiynu adolygiad allanol, rhaid sicrhau'r bobl briodol i gynnal yr adolygiad allanol.' (UCAC)

- Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn cytuno ar yr amod y byddai adolygiadau allanol yn digwydd ar gyfer CGCAu lle mae pryderon sylweddol yn unig. Nodwyd yr angen i gymryd camau ar y cyd gydag awdurdodau i adnabod ffyrdd o wella cynlluniau cyn troi at adolygiad o'r fath.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn ansicr o'r amodau neu sefyllfaoedd fyddai'n peri i adolygiad allanol gael ei gynnal. Atebodd rhai awdurdodau lleol gan ddweud eu bod wedi gwerthfawrogi cymorth swyddogion Llywodraeth Cymru fel 'ffrind critigol' a oedd yn herio a chefnogi'r gwaith o baratoi cynlluniau. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y dylid parhau gyda threfniadau tebyg a chyd-drafod proffesiynol yn hytrach na newid trefniadau.
- Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn anghytuno ar sail eu bod yn anghytuno gyda'r cynnig i newid CSCAau i fod yn CGCAu.

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd rhai sefydliadau o'r farn y byddai'n well petai awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn trafod a dod i gytundeb ar unrhyw newidiadau neu addasiadau i gynlluniau gan osgoi'r costau fyddai ynghlwm ag unrhyw adolygiad allanol.
- Mynegodd rhai ymatebwyr y farn na ddylid neilltuo gwariant sylweddol ar gyfer yr adolygiadau allanol ac eu bod yn rhagweld mai prin fyddai'r achosion lle y byddai adolygiadau allanol yn cael eu cynnal.

Dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu ar sail y CGCA arfaethedig


Cwestiwn ymgynghori 19: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion i roi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
151 (44%)	151 (44%)	38 (12%)

Nifer a atebodd y cwestiwn caeëdig = 340

Roedd 26 wedi gadael y cwestiwn caeëdig yn wag neu heb ateb yn benodol.

Barn sefydliadau: Roedd 40 o ymatebion y gellid eu hadnabod fel rhai a gyflwynwyd ar ran sefydliadau. Ymysg yr ymatebion hyn, roedd y gyfran o ymatebwyr a gytunodd yn uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nododd 23 (58%) eu bod yn cytuno; roedd 6 (15%) yn anghytuno a nododd 11 (27%) nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno.



Cyflwynodd 121 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau perchnogaeth leol o'r her o gynllunio gweithlu addas er mwyn medru gweithredu amcanion y Bil.

'O ran dyletswyddau'r awdurdodau lleol yn benodol, credwn fod yna le i bwysleisio eu cyfrifoldeb i sicrhau a hwyluso cyfleoedd hyfforddiant iaith i'w gweithlu cyfredol.' (Prifysgol Bangor)

- Cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen i wahanol sectorau gyd-weithio er mwyn sicrhau nad yw cynyddu nifer y gweithlu mewn un sector yn cael effaith andwyol ar weithlu sector cysylltiedig (e.e. gweithwyr blynyddoedd cynnar yn symud i ysgolion i fod yn gynorthwyyr dosbarth).
- Roedd nifer o ymatebwyr yn cytuno bod angen i awdurdodau lleol gymryd y cyfrifoldeb i *'wneud yr hyn sy'n bosibl o dan eu gallu hwy i ddatblygu'r gweithlu'*. Awgrymwyd bod lle i gynllunio'n fwy bwriadus, a rhoi mwy o ystyriaeth i anghenion y gweithlu cefnogol yn cynnwys adrannau adnoddau dynol, gwasanaethau ADY a chynhwysiant awdurdodau lleol, staff technegol ysgolion, gofalwyr, swyddogion cefnogol ysgolion awdurdodau lleol.

'Rhaid mapio'r gweithlu cyfan a chanfod y cyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu yn ôl anghenion yr ardal. Ond dim ond hyd at bwynt y gall awdurdodau lleol wneud y cynllunio hyn. Mae'n rhaid i'r cynllunio AGA [Addysg Gychwynnol Athrawon] fod yn digwydd ar yr un pryd i ymateb i anghenion pynciol ac oedran. Rhaid sefydlu system dracio genedlaethol sydd yn edrych ar yr anghenion y sector ac yn system ymatebol gyflym ar brydiau, gydag amrywiaeth o ymyraethau gan y Cyngor Gweithlu Addysg, Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Prifysgolion yn ogystal â'r Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol i osod cynlluniau hir dymor, tymor canol a byr dymor os oes rhaid er mwyn cyrraedd lefelau digonol o weithlu cymwys yn ôl yr angen.'
(RhAG)

- Tra'n cytuno gyda'r cwestiwn, nododd sawl ymatebydd bod y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth geisio cynyddu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg yn

amrywio yn dibynnau ar ffactorau megis: tueddiadau symudedd o fewn Cymru, argaeledd tai, y ganran o addysg cyfrwng Cymraeg hanesyddol, lleoliad sefydliadau addysg uwch. Mae'r pethau hyn yn effeithio ar allu awdurdodau lleol i ddenu, hyfforddi a chadw gweithlu sy'n medru gweithio yn y Gymraeg.

- Nododd ymatebwyr yr angen i barhau ac ymestyn y Cynllun Sabothol, gan hyrwyddo cynlluniau a rhaglenni eraill sy'n cefnogi sgiliau staff i fedru addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Wrth gyfeirio at rôl awdurdodau i gynllunio'r gweithlu, tanlinellodd ymatebwyr yr angen i ystyried gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y Coleg Cymraeg, prifysgolion a cholegau addysg bellach, a phartneriaid lleol eraill wrth gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg.
- Tanlinellodd ymatebwyr bwysigrwydd cynllun *Camau* y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygiad gweithlu blynyddoedd cynnar a'r angen am fuddsoddiad pellach er mwyn ehangu'r rhaglen a chynyddu prentisiaethau a chyrsgiau hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gan gyfeirio at yr angen i ddatblygu darpariaeth o fewn y sector cyfrwng Saesneg, awgrymodd ymatebwyr yr angen i awdurdodau gynnal awdit o sgiliau Cymraeg ar gyfer holl staff sy'n gweithio yn y sector ac yn cefnogi ysgolion a lleoliadau addysg a gofal blynyddoedd cynnar (er noder bo'r cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion eisoes yn gwneud hyn).

'Dyma fydd yn rhoi cyfle i adnabod ble mae'r gallu i weithio yn y Gymraeg, a ble mae angen buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleoliadau ac ysgolion penodol.' (Mudiad Meithrin)

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd rhai eu bod y anghytuno gan fod y gallu i ddylanwadu ar y gweithlu yn gorwedd yn bennaf y tu allan i ddylanwad uniongyrchol awdurdodau lleol. Nododd rhai ymatebwyr fod hyn yn rhywbeth y dylai Llywodraeth Cymru arwain arno, gyda chefnogaeth gan sefydliadau sy'n darparu addysg gychwynnol i athrawon a phartneriaid eraill.

'Mae llawer o agweddau cyffredinol cynllunio gweithlu addysg y tu allan i faes rheoli awdurdodau lleol. Bydd ar Lywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid allweddol eraill mewn hyfforddiant addysg a datblygiad proffesiynol angen sicrhau bod digon o gyfleoedd hyfforddi i ddatblygu iaith a chyllid i ryddhau staff i gwblhau hyfforddiant.' (Ymateb ar y cyd gan CLILC a CCAC)

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen am ymgyrch genedlaethol i ddenu pobl i rolau o fewn addysg cyfrwng Cymraeg. Nododd rhai ymatebwyr mai rôl y Llywodraeth yn genedlaethol yw sicrhau bod digon o athrawon yn cael eu denu i addysgu a dod drwy'r system.
- Nodwyd bod angen eglurder ar bwy y byddai'r targedau'n cael eu gosod ac ar y trefniadau atebolrwydd mewn perthynas â monitro cynnydd yn erbyn y targedau.

‘...mae angen bod yn gwbl glir faint o’r gwaith o gynyddu niferoedd athrawon Cymraeg sydd dan reolaeth a dylanwad awdurdodau lleol (e.e. datblygu sgiliau iaith y gweithlu presennol) a faint sydd tu hwnt i’w rheolaeth (e.e. Addysg Gychwynnol Athrawon a’r prosesau hyrwyddo a recriwtio cysylltiedig). Yn dilyn hynny, mae angen bod yn glir pa dargedau/cyfrifoldebau fyddai’n berthnasol i’r awdurdodau lleol, a pha dargedau a chyfrifoldebau sy’n cael eu cyfeirio at sefydliadau eraill.’ (Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

- Nododd sefydliadau bod y Fframwaith Sgiliau i Ymarferwyr Addysg yn ganolog i’r gwaith o fesur sgiliau iaith ymarferwyr a bod angen sicrhau dealltwriaeth a defnydd ehangach o’r Fframwaith ymysg ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.

Adroddiadau ar weithredu CGCAau arfaethedig


Cwestiwn ymgynghori 20: Ydych chi’n cytuno gyda’r cynigion ym mharagraffau 100 i 102 ynghylch cyhoeddi adroddiadau ar weithredu’r Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau) a chynnydd yn erbyn targedau’r Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
175 (52%)	124 (37%)	38 (11%)

Nifer a atebodd y cwestiwn caeëdig = 337

Roedd 29 wedi gadael y cwestiwn caeëdig yn wag neu heb ateb yn benodol.

Barn sefydliadau: Roedd 40 o ymatebion y gellid eu hadnabod fel rhai a gyflwynwyd ar ran sefydliadau. Ymysg yr ymatebion hyn, roedd y gyfran o ymatebwyr a gytunodd yn llawer uwch na’r ffigur cyfatebol ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nododd 35 (88%) eu bod yn cytuno; roedd 3 (8%) yn anghytuno a nododd 2 (5%) nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno.



Cyflwynodd 85 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i’r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd ymatebwyr y byddai'r cynnig yn fodd o sicrhau atebolrwydd a thryloywder mewn perthynas ac effeithiolrwydd gweithredu'r Cynlluniau.

'...teimlwn bod angen gosod gofyniad i gyhoeddi'r adroddiadau hyn a'u rhannu yn gyhoeddus er mwyn sicrhau tryloywder a galluogi i bartneriaid sgriwteiddio a cynnig syniadau a chyd-weithio i gyrraedd targedau'r Cynllun Cenedlaethol.' (Mudiad Meithrin)

- Nododd rhai cynrychiolwyr sefydliadau eu bod eisoes yn cyhoeddi eu hadroddiadau i gael eu craffu gan bwyllgorau sgriwteiddio.

'Byddai ffurfioli hyn yn cynnig gwell sicrwydd o dryloywder ac atebolrwydd yn genedlaethol.' (Cyngor Sir Ynys Môn)

- Cafwyd rhai sylwadau yn tanlinellu'r angen i sicrhau bod canllawiau clir ar gael i sicrhau cysondeb o ran dulliau a disgwyliadau.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nodwyd y byddai cyhoeddi'r adroddiadau yn ychwanegu mwy o bwysau ar ysgolion ac ymarferwyr, sydd eisoes yn dioddef yn sgil baich gwaith.
- Byddai hyn yn ychwanegu haen o fiwrocratiaeth di-angen, awgrymodd rhai ymatebwyr.

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd rhai ymatebwyr y byddai ganddynt bryderon ynghylch yr ymateb i adroddiad cyhoeddus sy'n nodi diffyg cynnydd wrth weithredu cynlluniau.

Adolygiadau ac argymhellion gan Estyn


Cwestiwn ymgynghori 21: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i roi swyddogaeth i Estyn i gynnal adolygiad chwim a chynnig argymhellion mewn sefyllfaoedd lle mae'n ymddangos bod risg na fydd awdurdod yn gwireddu ei dargedau?		
Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
122 (36%)	168 (50%)	47 (14%)

Nifer a atebodd y cwestiwn caeëdig = 337

Roedd 29 wedi gadael y cwestiwn caeëdig yn wag neu heb ateb yn benodol.

Barn sefydliadau: Roedd 38 o ymatebion y gellid eu hadnabod fel rhai a gyflwynwyd ar ran sefydliadau. Ymysg yr ymatebion hyn, roedd y gyfran o ymatebwyr a gytunodd yn llawer uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nododd 25 (66%) eu bod yn

cytuno; roedd 5 (13%) yn anghytuno a nododd 8 (21%) nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno.



Cyflwynodd 137 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd ymatebwyr y byddai rhoi swyddogaeth o'r fath i Estyn yn sicrhau mesur o atebolrwydd ac yn darparu llwybr clir i ymdrin ag unrhyw dangyflawniad gan awdurdod lleol. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn mai Estyn yw'r unig gorff cymwys ar gyfer cwblhau tasg o'r fath.

'[Rydym] yn cefnogi rhoi swyddogaeth i Estyn i gynnal adolygiad lle bod 'patrwm o dangyflawni' mewn perthynas â gweithredu'r CGCA, gan y byddai hyn yn cynyddu lefel yr atebolrwydd. Mae'r arbenigedd gan Estyn i gyflawni'r gwaith yma gan eu bod eisoes yn arolygu awdurdodau lleol.'
(CYDAG)

- Cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen am adolygiadau chwim a fyddai'n dod at wraidd unrhyw rwystrau a wynebir yn lleol.
- Yn dilyn yr adolygiadau, dylid sicrhau bod disgwyl i awdurdodau lleol weithredu ar unrhyw argymhellion a bod yr adolygiad yn rhan o broses barhaol i fonitro cynnydd.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nododd rhai ymatebwyr y dylai unrhyw adolygiad gael ei wneud gan Gomisiynydd y Gymraeg yn hytrach nag ESTYN 'fel bod hon yn broses gefnogol yn hytrach nag un o farn a her'.
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y cynnig yn ddi-angen gan y bydd angen i awdurdodau lleol adolygu eu CGCAu bob pum mlynedd er mwyn sicrhau cysondeb gyda'r Cynllun Cenedlaethol o dan un o'r cynigion eraill yn y Bil.

'If this proposal is implemented, this is when amendments can be made to the Plan so that it has every opportunity to meet its target. Therefore, we believe there is no need for Estyn to be involved in the process at all.' (NEU Cymru)

- Nododd ymatebwyr eraill y dylid delio gydag unrhyw enghreifftiau o dan-gyflawniad drwy ddulliau eraill, ac nid trwy ofyn i Estyn i gamu i fewn ac ychwanegu at y pwysau sydd ar awdurdodau ac ysgolion.

'If Welsh Ministers have powers under the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 to intervene, then this is how it should be dealt with in regard to under performance or risks, utilising Estyn in this way is not productive and could add to the pressures faced by local authorities and schools.' (Cyngor Bro Morgannwg)

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd rhai ymatebwyr yn gyndyn i gefnogi'r cynnig hwn yn sgil pryderon y gallai hyn ychwanegu'r baich atebolrwydd ar ysgolion.
- Nododd rhai ymatebwyr bod angen sicrhau eglurder ynghylch rôl Estyn er mwyn tawelu meddyliau rhai partneriaid.

'the idea of 'Estyn monitoring/ reviewing' does not support the collaborative, 'non-threatening' ethos of language development that we are striving to achieve within the local authority. The role of Estyn will also have to be consistent and supportive and not judgmental (not 'inspection style').'
(Cyngor Castell Nedd Port Talbot)

<p>Cwestiwn ymgynghori 22: Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch sut i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd camau rhesymol i weithredu eu Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau)?</p>

<p>Roedd y cwestiwn hwn mewn fformat testun agored ac felly ni chafodd ymatebwyr yr opsiwn i ateb 'cytuno' neu 'anghytuno'.</p>

Cyflwynodd 153 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Prif bwyntiau a godwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn

- Nododd rhai ymatebwyr yr angen i sicrhau mecanweithiau hwylus ar gyfer cydweithio a rhannu arfer da rhwng awdurdodau fel ffordd o gefnogi'r nod hwn. Yn gysylltiedig â hyn, cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at bwysigrwydd darparu cyfleoedd i awdurdodau gydweithio gyda sefydliadau addysg uwch ac ystod o bartneriaid eraill i gefnogi cynlluniau gweithredu.
- Awgrymwyd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i sut i wneud y targedau yn rhai rhwymol a beth fyddai'r canlyniadau i ALI nad sy'n cyrraedd eu targedau.
- Pwysleisiodd rhai sefydliadau yr angen i fuddsoddi mewn prosiectau neu rolau sy'n cefnogi neu'n hwyluso cydweithio rhwng partneriaid lleol.
- Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at bwysigrwydd sicrhau bod cyllid ac adnoddau ar gael i gefnogi gwaith partneriaid.


'Yn gyffredinol, os gosodir cyfrifoldebau neu ddyletswyddau ychwanegol neu o'r newydd ar awdurdodau lleol, Estyn, y Coleg Cymraeg, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Y Gweithlu Addysg a Chomisiynydd y

Gymraeg, mae'n allweddol sicrhau adnoddau staff mewnol digonol i alluogi cyflawni'r swyddogaeth(au) hynny yn llawn rhag tanseilio'r cyfan.' (Dyfodol i'r Iaith)

- Tanlinellodd rhai sefydliadau yr angen i Weinidogion Cymru sicrhau anogaeth a meithrin perthnasoedd cadarn gydag awdurdodau lleol – yn hytrach na gorfodaeth – fel ffordd o sicrhau eu bod yn cymryd camau rhesymol i weithredu.
- Awgrymodd ymatebwyr y gellid monitro darpariaeth addysg Gymraeg yn agosach er mwyn cefnogi'r broses o weithredu CGCAau: nodwyd y byddai gofyn i awdurdodau lleol nodi pa ganran o ddisgyblion sydd yn mynychu addysg cyfrwng Gymraeg fesul ward etholiadol yn ffordd o adnabod bylchau neu ardaloedd ble mae angen cynyddu ymgyrchoedd hyrwyddo addysg Gymraeg.
- Nododd ymatebwyr y dylid rhannu enghreifftiau ac astudiaethau achos o weithredu llwyddiannus.
- Awgrymwyd bod angen i Gomisiynydd y Gymraeg gael rôl benodol o ymateb yn statudol i gynlluniau addysg. Byddai hyn yn golygu bod y Llywodraeth yn nodi o dan ba safon y gall hyn ddigwydd (mae safonau yn awr am hyrwyddo'r Gymraeg a chynyddu niferoedd) ac yn rhoi cyllid digonol i greu swyddogaeth addysg benodol yn swyddfa'r Comisiynydd.
- Nodwyd yr angen i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried yr effaith ar y Gymraeg ac ar addysg cyfrwng Gymraeg bob tro y dymunir addasu, newid, neu gynyddu addysg Saesneg.
- Cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen i gryfhau cysylltiadau a chydweithio rhwng awdurdodau lleol a Mentrau Iaith Lleol (a'r rhwydwaith o Ganolfannau Cymraeg a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru). Gallai prosiectau a gweithgareddau ar y cyd ddangos 'bod y Gymraeg yn fwy nac iaith addysg i bobl ifanc' a bod y Gymraeg yn berthnasol ac yn fanteisiol i yrfaeodded ac i ymgysylltiad cymunedol.
- Awgrymwyd y gellir ystyried paru awdurdodau tebyg o ran natur ieithyddol lle bo un yn fwy llwyddiannus na'r llall. Nodwyd bod hyn wedi digwydd yn llwyddiannus gydag ysgolion yn y gorffennol.

9. Dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol (Pennod 6)

Addysg cyfrwng Cymraeg



Cyflwynodd 159 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Safbwynt cyffredin ymhlith ymatebwyr oedd o blaid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol oedd bod hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg eisoes ar y gweill gan awdurdodau lleol a byddai'r cynnig hwn yn rhoi cyfle i adeiladu ar y sylfeini hyn, gan symleiddio ymdrechion ac o bosibl yn sicrhau dull cyson ar draws ardaloedd.
- Roedd rhai ymatebwyr, yn enwedig o blith y sefydliadau, yn credu y gallai gosod dyletswydd hyrwyddo arwain at fwy o gydweithio rhwng awdurdodau, ac yn ei dro

byddai'r hyrwyddo yn cael ei gryfhau gan y cydweithio trwy bod mwy o rannu arferion da, adnoddau a phrofiadau.

- Pwysleisiodd ymatebwyr y gallai gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol gyfrannu at well eglurder a gwybodaeth i rieni. Gyda mandad ffurfiol yn ei le, gallai rhieni gael gafael ar wybodaeth fwy cynhwysfawr am yr opsiynau addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael iddynt. Gallai hyn, yn ôl rhai ymatebwyr, rymuso rhieni i wneud penderfyniadau gwybodus ar gyfer addysg eu plant.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd rhai ymatebwyr yn credu y dylai penderfyniadau ynghylch addysg Gymraeg fod yn nwylo rhieni yn unig. Roeddent yn honni bod rhieni eisoes yn wybodus am eu hopsiynau ar gyfer addysg eu plant, a dylai'r cyfrifoldeb i ddewis iaith addysg fod yn nwylo'r rhieni a nid yr awdurdod lleol.
- Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno gyda'r egwyddor o hyrwyddo gan nodi na ddylid hyrwyddo nac annog mwy o addysg cyfrwng Cymraeg.
- Roedd eraill, er yn gefnogol o'r egwyddor o hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, yn credu mai ar lefel genedlaethol y dylai ddigwydd, neu fydd *'dyblygu cyson a gwastraff ariannol'* (Dienw – ymateb i'r holiadur ar lein).

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Teimlai nifer o'r ymatebwyr y dylai fod gan awdurdodau lleol ryddid i gynllunio a gweithredu fel y gwelant yn dda ac yn unol ag anghenion lleol, felly dylai fod hyblygrwydd wrth weithredu o dan unrhyw ddyletswydd.
- Gwnaeth rai ymatebwyr bwysleisio bod angen sicrhau nad yw cefnogaeth a hyrwyddiad rhai ysgolion (y rhai cyfrwng Cymraeg) yn digwydd ar draul ysgolion eraill.
- Law yn llaw ag unrhyw waith hyrwyddo, roedd nifer o ymatebwyr-waeth beth fo'u hatebion i'r cwestiynau caeedig—yn awyddus bod digon o wybodaeth ar gael i rieni am addysg cyfrwng Cymraeg. Roeddent hefyd eisiau digon o gyfleoedd i rieni ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg, ynghyd â gwybodaeth i'w galluogi i gefnogi eu plant yn y cartref.

'Rwy'n gwybod bod rhieni mewn ysgolion cynradd yn ne Cymru yn awyddus iawn i gael gwersi i ddysgu digon o Gymraeg i ddeall yr hyn y mae eu plant yn ei wneud yn yr ysgol. Maen nhw (rhieni) yn awyddus i ddysgu geirfa fel y gallan nhw gyfathrebu a deall rhyw gymaint o Gymraeg fel eu bod yn teimlo'n rhan o addysg eu plant gan fod y rhelyw ohonynt yn ddi-Gymraeg.' (Dienw – ymateb i'r holiadur ar lein)

Cwestiwn ymgynghori 24: Pa gefnogaeth y dylai Weinidogion Cymru ei chynnig o ran hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg?
--

Roedd y cwestiwn hwn mewn fformat testun agored ac felly ni chafodd ymatebwyr yr opsiwn i ateb 'cytuno' neu 'anghytuno'.
--

Cyflwynodd 235 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Prif bwyntiau a godwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu y dylai Gweinidogion Cymru gynnig cefnogaeth hyrwyddo a chyflwynodd ymatebwyr awgrymiadau amrywiol ynghylch sut y dylid gwneud hyn.
- Cyllid ychwanegol: Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr yr angen am gyllid ychwanegol, ac mai dyma'r ffordd orau o hyrwyddo. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer y cam cyntaf, sef lleoliadau cyn-ysgol a blynyddoedd cynnar. Codwyd pwyntiau am yr angen am fwy o gyllid sawl gwaith mewn gwahanol ffyrdd, megis cyllid ar gyfer athrawon, ysgolion, ac ar gyfer darpariaethau arbenigol, yn ogystal ag ariannu deunyddiau a chymorth i rieni.
- Yn gysylltiedig â'r pwynt mwy cyffredinol am ddarparu cyllid, tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd darparu adnoddau, hyfforddiant a chefnogaeth i athrawon, a chymorth i rieni i wella eu sgiliau iaith Gymraeg. Cyfeiriodd ymatebwyr fan hyn hefyd at faterion y gweithlu addysg a'r angen i sicrhau bod mwy o staff â sgiliau Gymraeg.
- Roedd galw cryf am rannu mwy o negeseuon am fuddion dwyieithrwydd a manteision addysg Gymraeg, i deuluoedd Cymraeg eu hiaith a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref. Gwnaeth ymatebwyr awgrymu cynnal ymgyrchoedd cyfathrebu a hysbysebu cadarnhaol i dynnu sylw at fanteision addysg Gymraeg, gan dargedu rhieni a'r cyhoedd yn gyffredinol. Awgrymwyd hefyd bod deunyddiau ac adnoddau marchnata ar gael yn ganolog ar gyfer eu defnyddio'n lleol, a hynny ar gyfer gweithwyr yn y byd addysg, ond hefyd ymwelwyr ieched ac eraill sydd â chyswllt gyda rhieni.

'A national and regular campaign about the advantages and benefits of Welsh-medium education and that Late Immersion is a successful model for both Primary and Secondary learners. Additional resources including funding.' (Sefydliad –am aros yn ddiennw)

- Pwysleisiodd nifer fechan o'r ymatebwyr bwysigrwydd hyrwyddo a gweithredu mewn dull cynhwysol, gan sicrhau bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi mewn addysg cyfrwng Cymraeg, bod yna ddarpariaeth iddynt, a'u bod yn cael gwybod am y ddarpariaeth honno.
- Nododd rhai ymatebwyr, yn sefydliadau ac yn unigolion, y dylai Gweinidogion arwain drwy esiampl a defnyddio mwy o'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Gwnaed y pwynt hwn hefyd o adrannau addysg awdurdodau lleol. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai hyn yn gefnogaeth dda i ymdrechion ehangach (sydd hefyd eu hangen) tuag at normaleiddio defnyddio Cymraeg y tu allan i'r dosbarth ac yn y gymuned.
- Mynegodd rhai ymatebwyr (tua chwarter o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn) farn na ddylai Gweinidogion gynnig cefnogaeth, neu gynnig 'y lleiaf posib'.

'Information should be given to parents but it shouldn't be persuasive. Facts should be offered to them and they must always be permitted to do with those facts as they wish. There should be no 'push' for parents to put children in Welsh medium.' (Dienw – ymateb i'r holiadur ar lein)

Y rhesymau a roddwyd pam na ddylai Gweinidogion ddarparu cefnogaeth oedd:

- Canolbwyntio ar flaenoriaethau eraill: Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai Gweinidogion Cymru flaenoriaethu materion brys eraill, fel yr economi, gofal ieched, a lleihau tlodi, yn hytrach na chanolbwyntio ar addysg cyfrwng Cymraeg. Yn gysylltiedig â hyn mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch ariannu unrhyw gefnogaeth.

- Dewis rhieni: Thema gyffredin (a ddaeth i'r amlwg mewn cwestiynau eraill) oedd y gred y dylai addysg fod yn fater o ddewis rhieni ac nid rhywbeth a orfodwyd gan y llywodraeth. Aeth rhai ymatebwyr yn bellach a sôn bod y byddai hyn yn wastraff adnoddau.

Darpariaeth trochi hwyr

Cynigir bod angen gwneud mwy i hybu darpariaeth trochi hwyr ymhellach, ac y dylai fod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud hyn.


Cwestiwn ymgynghori 25: Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo darpariaeth trochi hwyr i rieni, gofalwyr a dysgwyr?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
179 (52%)	132 (38%)	33 (10%)

Nifer a atebodd y cwestiwn caeëdig = 344

Roedd 22 wedi gadael y cwestiwn caeëdig yn wag neu heb ateb yn benodol.

Barn sefydliadau: Roedd 41 o ymatebion y gellid eu hadnabod fel rhai a gyflwynwyd ar ran sefydliadau. Ymysg yr ymatebion hyn, roedd y gyfran o ymatebwyr a gytunodd yn llawer uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nododd 35 (85%) eu bod yn cytuno; nid oedd yr un o'r ymatebwyr hyn yn anghytuno a nododd 6 (15%) nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno.




Cwestiwn ymgynghori 26: Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu trochi hwyr i ddysgwyr?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
191 (55%)	122 (35%)	34 (10%)

Nifer a atebodd y cwestiwn caeëdig = 347

Roedd 19 wedi gadael y cwestiwn caeëdig yn wag neu heb ateb yn benodol.

Barn sefydliadau: Roedd 41 o ymatebion y gellid eu hadnabod fel rhai a gyflwynwyd ar ran sefydliadau. Ymysg yr ymatebion hyn, roedd y gyfran o ymatebwyr a gytunodd yn llawer uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nododd 33 (81%) eu bod yn cytuno; roedd 1 (2%) yn anghytuno a nododd 7 (17%) nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno.



Cyflwynodd 134 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 25.
Cyflwynodd 118 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 26.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiynau hyn

- Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at bwysigrwydd sicrhau dyraniad cyllid digonol ac fe nodwyd eu bod yn cytuno gydag unrhyw newidiadau i ddarpariaeth trochi hwyr ar yr amod bod cyllid ar gael i alluogi hynny.
- Nododd nifer o ymatebwyr bod llawer o awdurdodau lleol eisoes yn darparu ac yn hyrwyddo'r ddarpariaeth trochi. Eto fe nododd ymatebwyr bod angen arian ychwanegol ar gyfer staffio, teithio ac ati. Roedd cyllid felly yn thema gref yn yr ymatebion a gwnaeth nifer ofyn am fwy o adnoddau, cyllid a hyfforddiant i'r staff presennol.
- Roedd rhai ymatebwyr yn credu y byddai'n fanteisiol cael fforwm cenedlaethol ar ddarpariaeth trochi er mwyn sicrhau gweithredu cydlynol ar draws awdurdodau lleol a rhannu arferion da.
- Amlygodd nifer o ymatebwyr yr angen i ddathlu a lledaenu canlyniadau llwyddiannus canolfannau trochi er mwyn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r llwyddiant.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn pwysleisio'r angen am gymorth, gwybodaeth a gwersi Cymraeg i fel rhan o'r broses drochi.


Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiynau hyn

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn na ddylai dewisiadau iaith fod o fewn cylch gwaith awdurdodau lleol, a bod rhieni eisoes yn wybodus o'r opsiynau sydd ar gael. (Yn codi pwyntiau tebyg i cwestiwn 23)
- Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau na ddylai awdurdodau lleol ddangos ffafriaeth at addysg cyfrwng Cymraeg trwy gefnogi darpariaeth trochi hwyr na chymeradwyo un model o addysg dros un arall. Aeth rhai ymlaen i sôn eu bod nhw'n anghyfforddus gyda'r cynnig o'i wneud yn 'ddyletswydd' i awdurdodau lleol, gan fod hynny'n awgrymu y dylai darparu canolfannau trochi fod yn flaenoriaeth dros benderfyniadau am addysg neu wariant mewn meysydd eraill.
- Roedd yna bryderon y byddai adnoddau'n cael eu dargyfeirio oddi wrth ysgolion cyfrwng Saesneg i ganolfannau trochi.
- Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai ffafrio un iaith neu un model wahaniaethu'n anfwriadol yn erbyn siaradwyr Saesneg.

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiynau hyn

- Nododd llawer o'r ymatebwyr bod angen mynd i'r afael â sgiliau addysgwyr a phrinder staff. Roeddent yn cydnabod heriau ac yn pwysleisio'r angen i wynebu diffygion sgiliau a staffio.
- Roedd yna bwyntiau am hyrwyddo addysg Gymraeg, a chodi ymwybyddiaeth yn gyffredinol ac fe wnaeth ymatebwyr amlygu'r cysylltiad rhwng hyrwyddo cyffredinol, codi ymwybyddiaeth, a sicrhau bod rhieni'n deall yr hyn a olygir wrth addysg cyfrwng Cymraeg. Pwysleisiodd sawl cyfranogwr yr angen i baratoi adnoddau a deunyddiau hyrwyddo canolog i sefydlu unfurfiaeth a chysondeb mewn negeseuon trochi.
- Nododd ymatebwyr bod angen cydnabod a chefnogi rôl ymwelwyr iechyd a grwpiau chwarae wrth gyfrannu at ymdrechion trochi iaith.
- Roedd rhai ymatebwyr, o bosibl yn cynrychioli ysgolion, yn gofyn am eglurder ynghylch rolau awdurdodau lleol, gan fynegi rhwystredigaeth nad yw eu hawdurdod lleol yn cefnogi trochi hwyr na chwaith yn rhannu gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg ar eu gwefan, er bod awdurdodau cyfagos yn gwneud hynny.
- Pwysleisiodd nifer fach o ymatebwyr yr angen i deilwra hyrwyddo a'r ddarpariaeth hon ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'u rhieni.

10. Cefnogaeth i wireddu amcanion y Bil (Pennod 7)



Cyflwynodd 111 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Roedd yr ymatebwyr hynny a gytunodd yn tueddu i ddefnyddio'r blwch sylwadau ysgrifenedig i restru manteision model o'r fath.
- Roedd y manteision a restrwyd yn cynnwys: eglurder i ysgolion, creu sefydliad gweledol, rhoi statws priodol i sefydliad i gynnig arweiniad yn y maes, modd o warantu ansawdd, cyfrannu at degwch mynediad at gymorth ac yn osgoi dyblygu gwaith yn genedlaethol.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn


- Un rheswm allweddol a roddwyd gan yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno oedd bod yn well ganddynt gael cefnogaeth mwy lleol.
- Nododd rhai ymatebwyr bod risg o golli adnoddau cyfredol gan arbenigwyr ac athrawon os yn symud i fodel o ganoli cefnogaeth o fewn un corff.
- Roedd rhai sylwadau yn codi cwestiynau am y system gyllido sydd ar gael i'r ysgolion a'r awdurdodau lleol, neu yn gofyn am unrhyw wariant ar sefydliad gael ei wario yn uniongyrchol ar ysgolion.
- Teimlad y byddai holl gefnogaeth dysgu'r Gymraeg yn cwmpasu gormod o sectorau ac arbenigeddau, ac yn ormod i un sefydliad.

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Nifer fawr o ymatebwyr yn ateb 'ddim yn siŵr'. Dywedodd llawer ohonynt bod angen mwy o drafod ac ystyriaeth ar y mater hwn, a nid oedd modd iddynt fynegi barn heb ragor o wybodaeth.
- Yn benodol, teimlai nifer o ymatebwyr bod angen pennu swyddogaethau a chwmpas y corff cyn iddynt fedru ateb sut a phwy ddylai ymgymryd â'r swyddogaeth

'Byddem felly yn croesawu rhagor o eglurder ynghylch sut y bydd y corff canolog unigol arfaethedig yn ymwneud â chyrrff eraill ac yn rhyngweithio â hwy.' (Cymwysterau Cymru)

Cwestiwn ymgynghori 28: Ydych chi'n cytuno y dylai rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gael ei hehangu i ymgymryd â'r swyddogaeth neu oes model arall y dylid ei ystyried?		
Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
95 (28%)	163 (48%)	82 (24%)
Nifer a atebodd y cwestiwn caeëdig = 340		
Roedd 26 wedi gadael y cwestiwn caeëdig yn wag neu heb ateb yn benodol.		
Barn sefydliadau: Roedd 40 o ymatebion y gellid eu hadnabod fel rhai a gyflwynwyd ar ran sefydliadau. Ymysg yr ymatebion hyn, roedd y gyfran o ymatebwyr a gytunodd yn llawer uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer yr holl ymatebwyr. Nododd 24 (60%) eu bod yn cytuno; roedd 2 (5%) yn anghytuno a nododd 14 (35%) nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno.		



Cyflwynodd 133 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Lleiafrif oedd yn cytuno gyda ehangu rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ymgymryd â'r swyddogaeth.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Dywedodd rhai ymatebwyr bod y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg eisoes wedi profi llwyddiant ac mai ehangu'r rôl byddai'r ateb symlaf 'er mwyn sicrhau continwwm addysgiadol cyson'.
- Nododd rhai eu bod yn credu y byddai cydlynu gan y Ganolfan Genedlaethol yn gallu dod ag adnoddau, arbenigedd a mentrau ynghyd gan adeiladu ar eu gwaith presennol.
- Roedd rhai ymatebwyr yn gweld y potensial o ehangu ar gyfrifoldebau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg ond eisiau sicrwydd y byddai swyddogaeth yn cynnwys parhau i gydweithio gyda rhanddeiliaid sy'n arbenigo mewn meysydd amrywiol e.e. cyhoeddi llyfrau, cefnogi teuluoedd, a mudiadau amrywiol sy'n cydweithio a chefnogi pobl ifanc.

O ehangu ei chyfrifoldebau, credwn ei bod hi'n allweddol bod hynny'n digwydd mewn deialog a chydweithrediad gyda sefydliadau eraill sydd wedi meithrin arbenigedd dros nifer o flynyddoedd ym maes dysgu iaith a datblygu hyfforddiant ac adnoddau i blant, pobl ifanc a'r gweithlu addysg. (Prifysgol Bangor)


Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno a materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno

- Y teimlad mwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr oedd nad oedd digon o wybodaeth yn y Papur Gwyn i allu fynegi barn.
- Nododd rhai ymatebwyr er nad oeddent yn anghytuno â'r cynnig o ran egwyddor, nad oeddent yn siŵr a fyddai ehangu rôl y Ganolfan yn addas nac yn cyfateb i arbenigedd presennol y Ganolfan.

'Rhaid cofio mai addysg oedolion yw maes arbenigedd y Ganolfan Dysgu Cymraeg ac mae sawl her yn eu hwynebu yn y maes, gan gynnwys cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu'r iaith. Os mai'r bwriad yw rhoi'r holl agweddau

yn nwylo'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, byddai hyn yn golygu bod y ganolfan yn ehangu ar raddfa fawr, er mwyn gallu cynnwys yr holl gyfrifoldebau. Nid yw gofynion y gwahanol sectorau addysg yr un fath, ac felly byddai angen ystod eang o arbenigedd, er mwyn gallu diwallu'r gofynion a'r cyfrifoldebau a amlinellir uchod.' (UCAC)

- Roedd rhai ymatebwyr yn ffafrio ymchwilio modelau a darparwyr eraill. Eglurodd rhai sefydliadau (gan gynnwys prifysgolion) y gallai fod model amgen lle gallai sefydliadau eraill gymryd rai o'r swyddogaethau.
- Nododd rhai ymatebwyr eu pryderon ynglŷn â chau allan mentrau a gweithgarwch arall.



Cyflwynodd 126 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Gwnaeth nifer o ymatebwyr gyfeirio at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg a'u bod hi'n angenrheidiol gwarantu'r ddarpariaeth a'r strwythurau i gyflawni'r nod hwn.
- Nododd llawer o'r ymatebwyr y dylid gwarantu digon o ddarpariaeth dysgu Cymraeg, gan gyfeirio'n benodol at bwysigrwydd dysgu gydol oes a chynnig cyfleoedd i bobl o bob oed ddysgu Cymraeg.
- Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod gwarantu digon o ddarpariaeth dysgu Cymraeg a strwythurau addas yn golygu y dylai adnoddau ar gyfer dysgu Cymraeg fod yn rhad ac am ddim, yn hygyrch ac ar gael yn hawdd trwy amrywiol lwyfannau fel ystafelloedd dosbarth, cyrsiau ar-lein, ac apiau dysgu iaith.
- Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen i gynnwys cymunedau a chefnogi mentrau dysgu Cymraeg ar lefel leol a bod angen rhoi mwy o ystyriaeth o gyfranogiad cymunedau. Roedden nhw hefyd yn cynnig annog unigolion i ddysgu Cymraeg i eraill o fewn eu cymunedau.
- Gwnaeth ymatebwyr bwysleisio pwysigrwydd cael tiwtoriaid gyda'r sgiliau sydd eu hangen i addysgu'r Gymraeg. Maen nhw'n awgrymu buddsoddi mewn darparwyr i ehangu eu gweithlu ac fe dynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cynnig sicrwydd swyddi tymor hir i diwtoriaid rhag eu colli i gyflogaeth fwy diogel mewn sectorau eraill.
- Adroddodd rhai ymatebwyr bod gostyngiad wedi bod mewn cyllid ar gyfer darpariaeth gymunedol. Tra'n cytuno â'r syniad o ddarpariaeth addysg Gymraeg 'ddigonol', mae rhai ymatebwyr yn nodi bod cyllid ar gyfer dysgu Cymraeg i oedolion yn y gymuned wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf ac yn pwysleisio'r angen i gynyddu cyllid ar gyfer darpariaeth gymunedol er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad.
- Yn olaf roedd yna nifer o sylwadau am bwysigrwydd diffiniad a manylion clir. Gwnaeth ymatebwyr nodi'r angen am ddiffiniad clir o'r hyn y mae "digonol" yn ei olygu ac yn gofyn am fanylion mwy penodol am y cynnig a'i weithredu er mwyn deall ei gwmpas a'i effaith yn llawn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn


- Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a gynigiwyd yn ailadrodd anghytundeb cyffredinol ymatebwyr â'r cynigion yn gyffredinol.

Materion eraill, gan gynnwys pwyntiau gan y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn cytuno y dylai fod gwarantau ar waith ar gyfer darpariaeth addysg Gymraeg ddigonol ar draws pob grŵp oedran. Fodd bynnag, roedd pryderon am argaeledd a sgiliau'r gweithlu, cyllid, ac am yr angen am ddiffiniadau a manylion clir.
- Mynegodd nifer fechan o ymatebwyr bryderon am fodolaeth strwythurau addas i gefnogi dysgwyr gydag anghenion ychwanegol cymhleth, yn enwedig anghenion sy'n ymwneud â chyfathrebu. Nodwyd bod angen gwella'r cynnig i ddysgwyr ag anghenion addysgu ychwanegol.

11. Costau ac effeithiau'r cynigion

Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cyfeirio at ['Amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg'](#), gan ofyn y cwestiynau canlynol.



Cyflwynodd 62 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn cytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Ychydig iawn o ymatebwyr a gytunodd gyda'r cwestiwn a roddodd ymateb ysgrifenedig i gefnogi eu hateb.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn

- Rhestrodd ymatebwyr bartneriaid a enwir eisoes yn y ddogfen, er enghraifft awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.
- Y cyrff a grwpiau a chyrrff eraill enwyd oedd: ysgolion cyfrwng Saesneg; gwasanaethau ieuencid, gwasanaethau cyhoeddus eraill (e.e. iechyd a gofal cymdeithasol), busnesau preifat, sefydliadau celfyddydau a chwaraeon a sefydliadau'r trydydd sector.
- Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn wedi darparu enghreifftiau penodol o gyrff neu sefydliadau fodd bynnag; yn hytrach, fe wnaethant ailadrodd eu anghytundeb gyda unrhyw wariant ar y newidiadau.
- Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn credu bod y costau i'r cyrff a restrir, ac yn fwy cyffredinol, wedi cael eu tanamcangyfrif. Roedd eraill yn nodi mathau eraill o gostau:

'The assessed costs relate to oversight/administration. The real costs will entail recruitment, retention and incentives (bursaries) to train through the medium of Welsh. These costs will be substantial.' (Dienw – ymateb i'r holiadur ar lein)

Cwestiwn ymgynghori 31. Ar wahân i'r grwpiau a'r cyrff a nodir yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg, ar ba grwpiau neu gyrff fyddai'r costau'n disgyn?
--

Roedd y cwestiwn hwn mewn fformat testun agored ac felly ni chafodd ymatebwyr yr opsiwn i ateb 'cytuno' neu 'anghytuno'.
--

Cyflwynodd 107 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

- Roedd ymatebion yn debyg i'r rhai a gynigiwyd fel atebion i gwestiwn 30. Roedd nifer o ymatebwyr hefyd wedi defnyddio'r cwestiwn hwn fel cyfle i ail-adrodd nad oeddent yn cytuno gyda'r egwyddor o'r cynigion. O'r rhai wnaeth ateb trwy roi ystyriaeth i grwpiau fyddai yn cael eu heffeithio gan y newidiadau, y grwpiau a chyrrff a restrwyd oedd heb godi yn y cwestiwn blaenorol oedd myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru, prifysgolion a darparwyr ôl-16, a staff cefnogi y tu hwnt i ysgolion, yn cynnwys ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol, a seicolegwyr addysg.
- Nododd rhai ymatebwyr eu bod nhw yn dymuno mwy o wybodaeth am gostau posibl. Gwnaethant gysylltu hyn gyda'r pwynt am ddymuno eglurhad cliriach o rolau partneriaid, gan gynnwys ysgolion. Dylid adolygu'r costau yn rheolaidd.

'It is vital that the costs to schools are fully mapped out here. A significant investment above the stated funds described may be necessary to realise the ambitions of this paper. Schools at the moment are setting deficit budgets. This area needs to be kept under review.' (Sefydliad – am aros yn ddienw)

- Gofynnodd rhai sefydliadau am gael eu hychwanegu at y rhestr cyrff neu gael eu categorio'n wahanol, er enghraifft, roedd Mudiad Meithrin yn dymuno cael eu hychwanegu at y rhestr o'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau, ac roedd y Coleg Gymraeg Cenedlaethol yn ystyried y dylai gael ei gynnwys yn y rhestr "partneriaid gweithredu strategol cenedlaethol" yn yr amlinelliad o gostau ac

effeithiau yn hytrach nag o dan paragraff 9 sef “cyrff a phartneriaid sy’n cefnogi taith unigolion ar hyd y continwrm sgiliau Cymraeg.”

Cwestiwn ymgynghori 32. Beth yw'r effeithiau eraill (ariannol ac anariannol) sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth arfaethedig nad ydynt wedi'u hamlinellu yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

Roedd y cwestiwn hwn mewn fformat testun agored ac felly ni chafodd ymatebwyr yr opsiwn i ateb 'cytuno' neu 'anghytuno'.

Cyflwynodd 101 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Effeithiau eraill yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth arfaethedig a godwyd amlaf gan ymatebwyr

- Cost cyfieithu a chostau ychwanegol 'wrth argraffu'r holl ddeunyddiau ddwywaith', yn enwedig ar awdurdodau lleol.
- Yr effaith negyddol o bwysau cynyddol ar athrawon oherwydd y newidiadau a allai yn ei dro arwain at leihau ansawdd addysgu
- Effeithiau negyddol ar unigolion (yn ddisgyblion, athrawon, a dinasyddion yn gyffredinol) nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- Effeithiau ar ddysgwyr ag ADY.
- Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr yn eu hymateb at yr her na fydd digon o athrawon i allu darparu cefnogaeth i ddysgwyr o bob oed yng Nghymru. Roeddynt o'r farn mai datblygu'r gweithlu er mwyn mynd i'r afael â'r her fyddai'r brif effaith ariannol.

Cwestiwn ymgynghori 33. A oes unrhyw sylwadau eraill ar yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

Roedd y cwestiwn hwn mewn fformat testun agored ac felly ni chafodd ymatebwyr yr opsiwn i ateb 'cytuno' neu 'anghytuno'.

Cyflwynodd 82 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr

- Gwnaeth llawer o'r rheiny oedd wedi cynnig sylwadau sôn eu bod nhw'n cytuno â'r mathau o gostau a nodwyd yn y ddogfen.
- Gwnaeth rai ymatebwyr bwysleisio natur barhaus ac esblygol y costau hyn wrth i'r Bil gael ei weithredu, ac yn nodi bod angen ail-ystyried yn gyson.

'Byddai'n dda wrth i'r broses fynd yn ei blaen estyn allan i holl rhanddeiliaid cysylltiedig y papur hwn a holi'r cwestiwn hwn yn gyson.' (RhAG)

- Nododd rhai ymatebwyr y bydd angen i lawer o sefydliadau, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi'u henwi, fod yn ymwybodol yn ffurfiol o unrhyw gostau neu rwymedigaethau i weithredu'r Bil Addysg Gymraeg arfaethedig.
- Fel yn yr ymatebion i'r cwestiynau blaenorol, gwnaeth rai ymatebwyr rannu eu barn bod un rhyw wariant ar Fil Addysg Gymraeg yn wastraffus a heb fod yn flaenoriaeth.

Cwestiwn ymgynghori 34. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y Papur Gwyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

Roedd y cwestiwn hwn mewn fformat testun agored ac felly ni chafodd ymatebwyr yr opsiwn i ateb 'cytuno' neu 'anghytuno'.

Cyflwynodd 277 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pwyntiau a godwyd amlaf gan ymatebwyr

